

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



Rhifyn 295 - 60c
Gorffennaf 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Diolch
Canon
Aled**



Tudalen 5

**Cadwyn
cyfrinachau
yr ifanc**



Tudalen 16

**Delyth
ar
y brig**



Tudalen 26

Llwyddiant Llanwenog a Bro'r Dderi



Rali Ffermwyr Ifanc
Ceredigion a gynhaliwyd
ar Fferm Pantydefaid,
Prengwyn ar ddydd
Sadwrn, Mai 28ain.

Uchod - Aelodau Clwb
Llanwenog wedi iddynt
ennill y marciau uchaf yn
y rali. Bu iddynt hefyd
ennill Cwpan Gwynne
am y marciau mwyaf
yng nghystadlaethau'r sir
dros y flwyddyn.

Chwith - Aelodau
Clwb Ffermwyr Ifanc
Bro'r Dderi wedi
eu llwyddiant yn
ennill Cwpan y Clwb
Bychan Gorau yng
nghystadlaethau'r sir
dros y flwyddyn.

Cartrefi'r Cwm Cyf

**GWAITH SAER
GWAITH TO
GWAITH GOSOD LLECHI
RHEOLI PROSIECTAU
GWAITH ADEILADU CYFLAWN
ESTYNIADAU
GWAITH BLOCIAU
GOSOD BRICS**



**CYFLENWI
CEGINAU AC
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A'U GOSOD**

**FFENESTRI UPVC
FFENESTRI A DRYSAU
PREN CALED A MEDDAL**

07814 027849

**CYFLENWI
LLORIAU PREN
CALED A'U GOSOD**



LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnachol
Newydd**

*Am wasanaeth
dibynadwy a chost
effeithiol ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff
cysylltwch â ni ar:*
01570 421421

**Gwasanaeth Bin ar
Olwynion Newydd**
(1100L, 660L a 240L)

Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT

01570 421421



CYFRI

**CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS**

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Eleri Thomas BSc(Hons), Cert PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw ian gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



Cynhaliwyd ocsiwn lwyddiannus gan Gymdeithas Rieni ac Athrawon
Ysgol y Dderi lle codwyd swm o £3,200. Yn y llun mae Lois Williams cyd-
gysylltydd Cerdd yr ysgol, Lilian Jones, Dirprwy ynghyd â chynrychiolwyr o
blith y disgyblion a'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon a drefnodd y noson.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

* Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Brecs * Egsost

* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

YSWIRIANT FUW

**Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai**



*Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Tawelwch meddwl*

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awtorhodi â rheol gan
Parhysod y Ddeddfau Cymru, a'u hysbysu i'r awtorhodi ym 2005.

HYSBYSEBU YN CLONC

*"Mae mwy a mwy yn gweld
gwerth mewn hysbysebu yn y
Papur Bro."*

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o
bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£40.00 am chwarter tudalen.

£60.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes
CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Gorffennaf a Medi Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Morgans

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Hen Feddygyniaethau.

Roedd hi'n Sadwrn pleserus iawn yn Llanerchaeron. Planhigion a llysiau oedd thema'r dydd. Hyfryd oedd gweld llysiau cyfarwydd wedi'u labeli'n ddestlus ac yn olrhain eu hanes, a'r defnydd llesol y gellir wneud ohonynt. Pan oeddwn yn blentyn rwy'n cofio clywed am 'Eli Cilgwyn' ac 'Eli Dremddu'. Roedd y rhain wedi'u gwneud o ddeunydd oedd yn bodoli yn y cylch ac roedd galw mawr amdanynt. Trueni fod y cyfarwyddiadau sut i baratoi y rhain wedi mynd ar goll. Os ydych yn gwybod rhagor amdanynt, cysylltwch â 'Chlonc'. Mae'n enbyd fod gwybodaeth fel hyn yn diflannu. Peidiwch â thaffu hen ddogfennau o'r tŷ heb eu darllen yn fanwl. Gall fod yn syndod i chi beth sydd wedi'i groniclo.

Synau aflafar!!

Ydw rwy'n hoffi gwyllo'r gemau o Wimbledon, ond mae'n rhaid gwyllo nifer ohonynt gyda'r sain wedi i droi i ffwrdd. Mae clywed rhai yn gwneud yr ebychiadau uchel yn amharu ar y pleser o wyllo. Paham na ellir dod â rheol allan sy'n gwrthwynebu hyn? Mae rhai o'r chwaraewyr yn fy atgoffa o hen ffilmiau 'Tarzan'. Efallai fod y synau yn iawn yn y jyngl ond nid ar gwrtenis. Esiampl wael iawn i'r to ifanc sy'n dechrau chwarae. Un peth yw dangos cyflymder y bêl, beth am gael peiriant sy'n dangos uchder y sŵn!

Tybed a fyddai hyn yn ddigon i godi cywilydd ar rai.

Troseddwr 'V' y Teulu.

Fe gafwyd cryn sylw i lofruddiaeth Milly Dowler yn ddiweddar, a'r farn fod teulu'r ferch wedi cael amser caled ofnadwy gan yr amddiffyniad, wrth gael eu croesholi.

Onid oes lle i'r barnwr mewn sefyllfa fel hyn i roi terfyn ar groeshoelio rhieni diniwed a chanolbwyntio ar y drwg weithredwr?

Noson Agored ddiddorol.

Cefais wahoddiad i fynychu arddangosfa o waith Dylunio a Thechnoleg, a Chelf a Dylunio disgyblion yr ysgol uwchradd gogyfer â'uh arholiadau. Rhaid canmol y disgyblion a'u hathrawon am waith arbennig o dda. Da oedd gweld cymaint yn bresennol a'r ystod eang dros ben o weithiau. Roedd ôl oriau o waith yma a rhaid cofio mai un pwnc yn unig yw hwn. Da iawn chi!

Bargen?

Stori i ddod a gwên i'ch gwyneb. Bachgen oedd â thipyn o broblemau wedi dod i sylw'r heddlu dro ar ôl tro. Wrth gael ei holi y tro yma meddai, "Dod i siarad â fi ych chi am i mi ddwyn potelaid o 'shampw'?" "Nage" meddai'r heddlu, "ond diddorol, dim ond un potel ddygaist ti, beth oedd arnat ti'n mynd â dwy?" "Roedd na arwydd yn dweud 'buy one, get one free'" meddai, "felly ond un ddygais i! Pob hwy! dros y gwyliau. Gobeithio bydd y tywydd yn ein bodloni.

Gorsgoch

Llongyfarchiadau

Llund whilber o longyfarchiadau sydd gennym fel pentref y mis hwn.

Yn gyntaf, llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau i Helen Maesygarth ar ei dyweddiad â Ceri, Gelli-Orlais, Abercych. Lwc dda i chi'ch dau i'r dyfodol.

Yn ddiweddar, pasiodd Briallt Williams, Hafod y Gors ei harholiad piano, gradd 2. Da iawn ti wir - ymlaen yn nawr i radd 3!

Dathlodd dwy ffrind o'r pentref eu pen-blwyddi yn ddiweddar hefyd. Pen-blwydd hapus mawr i Doreen Evans, Glenydd a Martha Davies, Llain Gors yn 80 mlwydd oed! Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

Yn olaf, mae angen llongyfarch nifer fawr o drigolion ifanc y pentref a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Abertawe yn ddiweddar. Go lew chi, a daliwch ati i gystadlu!

Gwellhad Buan

Derbyniodd Eryl Jones, Gorwel driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn teimlo'n well erbyn hyn Eryl.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Gwyneth a Wyn Morgans, Pensarnau a'r teulu oll yn eu galar o golli brawd yng nghyfraith ac ewythr allan yn Awstralia sef Handel Rees.

Diolch

Dymuna Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg ddiolch i bawb am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd pan fu yn anhwylyd yn ddiweddar. Treuliodd rai dyddiau yn Ysbyty Glangwili, ac mae'r holl gonsyrn amdani tra mewn ac ar ôl iddi ddod adref yn codi ei chalon. Gwerthfawrogi pob gweithred yn fawr iawn.



Chris Walters, Rheolwr Spar, Llambled (canol) yn cyflwyno sic o £500 i reolwr y Watch, Tim Dicker a chriw y Frigâd Dân.

CLONCYN.



Noson Apêl Elain

Cynhaliwyd noson arbennig iawn yn Neuadd Sant Iago Cwmann ar y 4ydd Mehefin. Enillwyr y raffl fawr oedd: 1af £100 – Hanna d/o S4C Caerdydd; 2ail Taleb Glynhebog – Gerald d/o Wynstay; 3ydd Taleb Panacea – Margaret Morgan; 4ydd Taleb Shapla – Fishers, Cellan; 5ed Taleb Trysor – Aron Jones, Tregaron; 6ed Tocyn y Gerddi Botaneg – Catrin a Rob, Caerdydd; 7fed Wisgi – Jenkins of Farmers; 8fed Gwin – Ceri Lloyd, Caerdydd. Cyhoeddir cyfanswm yr arian a godwyd yn y dyfodol agos. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd.

Diolch

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth fy nodd i helpu i godi arian tuag at elusen Breakthrough Breast Cancer. Roedd y profiad o redeg marathon Llundain yn wych a bythgofiadwy. Wrth redeg a gweld pob math o bobl ac oedranau'n cystadlu, a hynny dros gymaint o wahanol elusennau, roedd yn brofiad emosiynol iawn.

Rwy'n falch iawn o ddweud fod y cyfanswm a godais i Breakthrough Breast Cancer bron yn £10,000, felly diolch yn fawr iawn i bawb am eich cyfraniadau.

Diolch yn Fawr – Nerys Douch.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Lynn a Rhodri Thomas, Cae Coedmor ar enedigaeth merch fach, Mari Haf chwaer fach i Lloyd. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Sian a Gary Jones, Bryndolau ar ddod yn famgu a tadcu am y tro cyntaf, mab bach i Nia ac Osian yn Silian. Hefyd, i Mrs Eluned Lewis, Tanlan ar ddod yn hen-famgu unwaith yn rhagor.

Sefydliad y Merched. Coedmor

Croesawodd Noeleen Davies, ein llywydd, bawb i'r cyfarfod Mis Mehefin yn y Ganolfan. Cafwyd adroddiad byr gan Joyce am weithgareddau'r carnifal a mabolgampau'r pentref ar Ŵyl y Banc. Darllenwyd y cofnodion gan Elma ac arwyddwyd hwy gan y llywydd. Cydymdeimlwyd â Pat Thomas -yr Ysgrifennydd Sirol - ar golli ei mam yn ddiweddar. Trafodwyd y llythyr misol a darllenwyd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Sefydliad y Merched, St. Cynwr.

Bu Joyce a Noeleen yn cynrychioli'r gangen ym mhwyllgor y grŵp yn Llandysul. Bydd y

grŵp yn cwrdd yng Nghoedmor yn yr Hydref a thro Coedmor fydd i ddewis y swyddogion newydd. Cynigiwyd Noeleen a Gwyneth i ymgymeryd â'r gwaith. Cytunodd Avril, Elma a Gwyneth i wneud llyfryn o hanes Sefydliad y Merched, Coedmor.

Croesawyd ein gwraig wadd sef Angharad Merwah gan Noeleen. Bu'n arddangos ei chasgliad helaeth o saris - gwisg draddodiadol yr India. Disgrifiodd a dangosodd y gwahanol rannau o'r wisg, sef y bais ar flows. Aeth trwy'r gwahanol gamau o wisgo'r sari sy'n cynnwys chwe llathen o ddefnydd sidan gan orffen gyda'r darn lliwgar dros yr ysgwydd a lawr y cefn.

Diolchwyd iddi gan Morfudd. Enillwyd y raffl gan Brenda. Irene a Morfudd oedd yn gyfrifol am wneud y te.

Mis nesa bydd Irfon Williams yn arwain taith gerdded o amgylch Cors Caron. Yr aelodau i gwrdd am 6.30. yn Heol Hathren a bydd swper i ddilyn.

Diolch

Dymuna Mrs. Evelyn Jones, 3 Heol Hathren ddiolch i'w theulu, perthnasau a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Cymorth Cristnogol

Mae'r casgliad wedi bod yn rhagorol eleni eto, sef £1,094.93. Diolch am eich haelioni a diolch hefyd i'r casglwyr. Da iawn pobl Cwmann!

Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Glesni Thomas, 1 Heol Hathren yn dilyn ei llawdriniaeth yn ysbyty Llanelli.

Clwb 125 Mehefin - Neuadd Sant Iago

1. Hal ac Eli, Cysgod y Coed, Cwmann, 78, 2. Mrs. M. Roberts, Cyswch, Cwmann, 53, 3. Mrs. Eva Brown, Tŷ Helyg, Cwmann, 37, 4. Mr Vaughan Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 109, 5. Jasmine Davies, Glenview, Pencarreg, 74, 6. Mr Dewi Davies, Polfelin, Blaencaron, 60, 7. Mr Noel James, Emlyn Cottage, Cwmann, 42, 8. Mrs. Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 81, 9. Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 92, 10. Mrs M. Evans, Fferm Feilnfach, Cwmann, 36.

Clwb 250 Mehefin

1. 16, Mr. Gary Jones, Bryndolau, Cwmann, 2. 226, Mrs. Eirwen Davies, Ffawydd, Cwmann, 3. 149, Mrs. Helen Randell, Maes Hendre, Cwmann, 4. 228, Graham, d/o Harold Tŷ Howell, Cwmann, 5. 142, Miss. Carol Powell, Penbryn, Cwmann, 6. 35, Mr. Eifion Davies, Four Winds, Cwmann, 7. 66, Mrs. Brenda Luker, 17 Treherbert, Cwmann, 8. 108, Mr. Ioan Williams, Dolgwm Isaf, Pencarreg, 9. 136, Mr. Alan Morgans, Rhydowen, Cwmann, 10. 225, W. Randell, Blaencwm, Cwmann.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Beca Creamer, Brooklands am basio Gradd 5 ar y piano yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Osian Jones, Araul am basio 'Step 2' gyda chlod.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafwyd diwrnod Mabolgampau hwylus iawn ar gae Pentref Cwmann ym mis Mehefin efo Tai Cothi a Teifi yn ymgiprys am dlws y Tŷ gorau.



Yn dilyn cystadlu brwd, Teifi ddaeth ar y brig o drwch blewyn ac enillwyr y medalau am y pwyntiau unigol uchaf oedd Dafydd Jones, Gwenllian Llwyd Roberts, Beci Harrison ac Ewan Bowden. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Yn ystod y mis hefyd, mwynhaodd disgyblion Carreg Hirfaen b'nawn braf o fabolgampau Dyffryn Cothi ar gaeau Ysgol Llansawel. Eleni am y tro cyntaf ymunodd ysgolion Maesybont, Cwrt Henri a Cwm Ifor a'r ysgolion arferol gan wneud y mabolgampau yn rhai cystadleuol iawn. Llongyfarchiadau mawr i bawb o Carreg Hirfaen a gymerodd rhan.

Yn dilyn llawer o waith paratoi gan staff a disgyblion yr ysgol lawnsiwyd gwefan newydd Ysgol Carreg Hirfaen yn ddiweddar. Ewch i ymweld â'r wefan am newyddion diweddaraf yr ysgol ar :

www.carreghirfaen.amdro.org.uk



Brenhines Carnifal Cwmann Christina Davies, gyda'r llywydd Eifion Evans a Carol Davies, y morwynion Beca Mai Roberts, Bea Blyth, Elen Medi Jones, a'r gweision Sion Harry Evans a Kai Bexton.

Cwmann

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Elan Jones, Araul, Heol Caerfyrddin yn teimlo'n well erbyn hyn yn dilyn ei arhoasiad yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd yn ystod diwedd mis Mehefin.

C.Ff.I Cwmann.

Ar y 7fed o Fai cynhaliwyd Rali Sir Gâr ar faes Sioe Nantyci, Caerfyrddin. Roedd bwrllwm ar faes y sioe yn gynnar gydag aelodau o bob pen o'r sir yn tyrru yno i gystadlu a mwynhau'r diwrnod. Bu aelodau Cwmann yn brysur yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau o goginio pice ar y maen, cneifio, gwneud gateaux, gwisgo arweinydd clwb, gwnïo, torri torth o fara, bwrdd ffasiwn A4, It's a Knockout ac wrth gwrs y seremoni'r Llysghenhades a'u dirprwyon. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau am gystadlu ac i'r rhai ddaeth i'r brig. Gwelwyd Sioned Russell yn cael ei hanrhydeddu fel Dirprwy Lysghenhades ac rwy'n siwr fydd pawb oedd ar faes y rali yn cytuno ei bod yn edrych yn hyfryd.

Y nos Sadwrn canlynol cynhaliwyd cinio blynyddol clwb Cwmann yn Ysgubor Teile. Cafwyd pryd tri chwrs blasus tu hwnt. Arweinydd y noson oedd Tomos Jones gydag Aled Bowen yn adrodd hanes y flwyddyn. Cafwyd neges bwrpasol gan ein Llywydd Mr Wyn Jones a hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch iddo am ei gymorth a'i gefnogaeth a'i gwmni trwy gydol y flwyddyn. Mr Dylan Jones, Is-gadeirydd Cymru oedd ein siaradwr gwadd. Enillwyr cwpanau aelod hŷn y flwyddyn oedd Carwyn Lewis a Cheri Jenkins yn ennill aelod iau.

Nos Wener y 27ain aeth nifer ar ein helfa drysor. Helfa a drefnwyd gan Aled a Gwawr Bowen. Aeth y ceir o'r neuadd draw ar heol Cellan, lan mynydd Cellan heibio Pantygwin am Graig Twrch, lawr y cwm ac yna nôl i bentref Ffald y Brenin cyn cyrraedd tafarn y Porthmyn, Ffarmers am bryd o fwyd blasus. Enillwyr yr helfa eleni oedd Simon a Rhian Jones, Dylan a Louise Jones. Diolch i Aled a Gwawr am drefnu'r daith yn drylwyr.

Cynhaliwyd cneifio'r clwb eleni ar fferm Hendai, Cwmann. Cafwyd croeso cynnes gan Wyn a'r teulu. Enillydd y dosbarth agored oedd Kevin Douch a Rhydian Thomas yn ennill yr adran hŷn ac Aled Thomas yn ennill yr adran iau. Diolch i Wyn a'r teulu am baratoi lluniaeth arbennig ac am gefnogaeth aelodau a chyn aelodau.

Ar y penwythnos canlynol aeth 12 ohonom i wersylla ym Meddgelert. Wedi noson anghyfforddus mewn pabell yr her oedd cyrraedd copa'r Wyddfa. Dechreuwyd ein taith ym Mhen Pas ar lwybr y

glowyr gan gerdded llwybr serth a chreigiog am filltiroedd diddiwedd cyn cyrraedd copa'r Wyddfa. Roedd hi'n niwlog ac yn wyntog tu hwnt ar y copa, heb obaith o weld unrhyw fath o olygfa. Cafwyd seibiant yn y caffi ar y top gyda chyfle i gael ychydig o fwyd cyn mentro ar y daith nôl i lawr.

Penderfynwyd dilyn llwybr Watkins wrth gerdded lawr y mynydd. Os oeddem yn credu fod y ffordd i fyny yn serth roedd y ffordd i lawr yn waeth. Wedi cerdded ychydig cliriodd y niwl a gwelwyd golygfeydd godidog. Tywynodd yr haul ar filltiroedd o brydferthwch naturiol. Tair awr yn ddiweddarach gyda choesau a thraed blinedig dyna ni wedi cyrraedd pen y daith. Wedi ymolchi ac ymlacio ychydig roedd hi'n gyfle am bryd o fwyd ym Meddgelert cyn gwersylla am noson arall a theithio adref ar ddydd Sul. Penwythnos i gofio!



Cymdeithas Clybiau a Merlod Cymreig Ceredigion yn cyflwyno siec o £1,000 i Mrs Sian Roberts-Jones ar ran Cronfa Goffa Raymond Roberts tuag at yr afiechyd Motor Neurone. Codwyd yr arian yn sgil y gyngerdd a gynhaliwyd yn Theatr Felinfach ym mis Rhagfyr. Yn y llun o'r dde i'r chwith mae Mr Geraint Jones Llywydd, Mrs Mair Hughes, Allt Ddu Tregaron Llywydd y noson, Mr Elgan Evans Cadeirydd, a Kath Davies, Ysgrifennydd.



Rheithor Canon Aled Williams yn ymddeol ar ôl gwasanaeth o 40 mlynedd. Bu'n gyfrifol am 13 o eglwysi yn Neoniaeth Llambod ac Ystrad Aeron. Roedd Eglwys San Pedr Llambod yn orlawn gyda chynrychiolaeth o'r holl eglwysi a'r weinidogaeth. Yn dilyn y gwasanaeth a gynhaliwyd ar 29 Mai fe ymunodd 140 o bobl mewn te arbennig lle cyflwynwyd rhoddion i'r Rheithor Canon Aled Williams. Yn y llun gwelir y Rheithor Canon Aled Williams a'i wraig yn derbyn rhoddion gan Swyddogion yr Eglwys.

Cerddwyr Llanbed

Picnic yn y Forest

Cymdeithas Coed Alltgoch [Long Wood] a Cherddwyr Llanbed yn cwrdd fore SUL ar gyrion y dref.

Y mae llwybr serth yn codi i Fferm Mount Pleasant ac mae tair coeden fawydd gref ar yr ymylion.

Yr oedd chwech o goed i'w ffeindio gan y plant ac roedd un ddim yna sef Gwernen sydd yn hoffi tir gwlyb. Y coed mwyaf yma ydyw y Ffawydd ac mae llawer o ddefnydd arnynt, o ddodrefn i adeiladu.

Fe gafodd y criw o blant amser deniadol yn cerdded y rhwydwaith Allt Goch. Ble byddem heb goed?

Maent yn glanhau yr awyr, yn gwneud cymylau sydd yn dod yn ol fel glaw, yn ei dro.

Daethom at y ferch Ddu wedi ei cherflunio mewn pren a sedd wedi ei gwneud a trêen coed arni.

Uwchlaw yn y coed mae llwyfan perfformio; dyma le â ffurfafen ardderchog i adrodd neu ganu. Cawsom ein picnic yng ngardd Hobbs mwen tŷ crwn. Cinio yn yr awyr iach, delfrydol.

Lle coffa Hobbs yma, fe yn ddyn coed. Lle prydferth i adloniant. Y mae y goedwig yn cynnig ffynhonnell gynaliadwy lleol. Gall perchnogaeth gan y gymuned fod yn les mawr. Cynorthwyc Y fusnes i brynu'r coed i ni. Cadw ymlaen i Gaer Alltgoch, ar bryncyn amlwg, ac edrych lawr ar y dyffryn a'r dref. Lle eang oedd hwn ac yn fangre mewn amser o drwbwl i deuluoedd Celataidd ein hen dadau. Yn ôl ar lôn werdd a chaeau ar ochr Cellan, nôl i Lanbed. Fe gawsom hwyl ac anturiaethau ac fe allwch chwi hefyd gael Gwefr y fforest. Rhowch dro i'r coed cymunedol. Y mae gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur ac wedi rhoi llawer o addurniadau yn y coed. Dewch i weld gyda ni beth yw bywyd y coed.

Llanybydder

Diolch

Dymuna Byron ac Anne, Wil ac Eleri, Yr Hafod, Llanybydder, ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli merch a chwaer annwyl iawn. Bu farw Lis Thomas yn frawychus o annisgwyl ac yn sydyn ar ddechrau mis Mai yn 46 oed. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Llanybydder, Ysgol Gyfun Llambled a City University, Llundain, cyn sefydlu busnes optegyddion ei hun yn Rhydaman.

Clwb Hoci Llanybydder

Cynhaliwyd cinio blynyddol y Clwb yn ddiweddar yn Nhafarn Ffostrasol. Cafwyd bwyd blasus a noson hwylus wrth rannu atgofion am y flwyddyn a fu.

Mae'r Clwb yn chwarae yng Nghynghrair Hoci Mansel Griffiths a'i Fab sydd yn cynnwys timau o Geredigion a Sir Benfro. Eleni o dan arweiniad y Capten Gemma Hope a'r Is-gapten Heledd Wilson fe ddaeth y Tîm yn drydydd yn y Gynghrair sydd yn cynnwys cyfanswm o naw tîm. Sgoriodd y Tîm 81 gôl gyda 31 gôl yn eu herbyn. Sgorwarig uchaf y Tîm eleni oedd Tracy Evans wedi iddi sgorio 20 gôl gyda Laura Davies yn ail agos iawn iddi gyda 19 gôl! Chwaraewraig mwyaf addawol y Tîm oedd Amanda Russell gyda Rebecca Hands yn derbyn y tlws am 'Chwaraewraig y Tîm'.

Llongyfarchiadau mawr i Rebecca hefyd am gael ei dewis yn gapten ar y Tîm ar gyfer y tymor newydd. Yr Is-gapten yw Tracy Evans. Mae'r Clwb yn disgwyl mlaen i'r tymor newydd ym mis Medi gan y bydd y gemau cartref i gyd yn cael eu chwarae ar gae astro newydd Ysgol Llambled.



Rebecca Hands -Chwaraewraig y Tîm a'r Capten ar gyfer y tymor newydd, Tracy Evans- Sgorwraig Uchaf y Tîm a'r Is-gapten newydd, Amanda Russell- Chwaraewraig mwyaf addawol a Gemma Hope - y cyn-Gapten a Threfnydd y Ginio.

Dyma gyfnod newydd yn hanes y Clwb gan ein bod wedi chwarae ar amryw feysydd yn Llanybydder a Llambled ers i'r Clwb gael ei sefydlu dros 35 mlynedd yn ôl. Rydym wedi bod yn chwarae ar gae hoci porfa Ysgol Llambled flynyddoedd yn ôl ac ar faes graean Y Brifysgol yn Llambled. Gan ein bod yn chwarae ein gemau i gyd ar arwynebedd astro erbyn hyn, rydym wedi bod yn teithio i Aberteifi i chwarae ein gemau cartref ers nifer o flynyddoedd.

Mae'r Clwb hefyd yn bwriadu dechrau timau Dan 13 a Dan 15 oed ac edrychwn ymlaen i'r fenter newydd hon hefyd. Bydd y sesiynau hyfforddi yn dechrau ym mis Medi ar y maes astro newydd yn Ysgol Llambled. Croeso cynnes i bawb. Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r canlynol-

Tîm Cyntaf- Rebecca Hands 07967956394. Timau Dan 13 a Dan 15(Disgyblion Bl.5 i Bl.10)- Heledd Wilson 07969124056.

Bronwen Evans a'i ffrind, Irene Davies Jones yn gorffen taith gerdded y 'moon walk' yn Llundain, mis Mai. Taith flynyddol yw hon i godi arian i cancer y fron. Gofynnir i'r cerddwyr wisgo bronwisg wedi ei addurno i gerdded y daith o 26.2 milltir (pellter marathon) sydd yn cael ei chynnal yn ystod y nos. Wnaeth y ddwy amser da iawn wrth gwblhau'r daith mewn 6 awr a 45 munud. Maent eisioes wedi codi £1,500 gyda ychydig o arian eto i ddod mewn. Hoffent ddiolch i bawb am eu cefnogoeth.



Aelodau tîm yr 'Inbetweeners' yn derbyn Cwpan gan Sonia ac Arwel Morgan fel y tîm buddugol mewn cystadleuaeth o gemau potes ar ddydd Sul 26ain o Fehefin, fel rhan o weithgaredd wythnos garnifal Llanybydder. Isod gwelir un o'r gemau potes.



Eisteddfod Papurau Bro

Bwriada Clonc gystadlu yn Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion eleni eto, ond gofynnir i ddarlennwyr Clonc i ymuno yn yr hwyl drwy gystadlu o flaen llaw yn enw Clonc ac ymuno yn yr hwyl ar y noson.

Dyma'r Manylion: Dyddiad: 9fed o Fedi 2011, Lleoliad: Neuadd Felin-fach, Amser: Drysau yn agor am 7.00yh, Noson i ddechrau am 7.30yh. Arweinydd: Geraint Lloyd, Beirniad: Dewi 'Pws' Morris.

Mae cystadlaethau Llwyfan i gael ar y noson. Meddyliwch amdanynt a dewch draw ar y noson:

1. Datganiad ar yr organ geg, i bara dim mwy na tair munud. Hunan ddewisiad
2. Sgetsh gyda dim mwy na chwech mewn nifer yn y grwp, i bara dim mwy na pum munud. Testun - unrhyw arddull yn ymwneud a phapur bro
3. Llefaru - darllen darn heb ei atalnodi
4. Stori gelwydd

Dyma'r cystadlaethau Gwaith Cartref:

1. Ar gyfer dysgwyr - paratoi erthygl fer - dim mwy na 300 o eiriau ar gyfer y papur bro yr ydych yn ei gynrychioli
2. Slogan i hysbysebu eich papur bro
3. Ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed - portread aelod o'r teulu - dim mwy na 300 o eiriau ar gyfer y papur bro yr ydych yn ei gynrychioli
4. Llundio brawddeg, gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau C-E-R-E-D-I-G-I-O-N
5. Gorffen limrig - "Aeth Wil un noson i'r gwely"
6. Creu carden cyfarch i ddathlu pen-blwydd Dewi "Pws" Morris

Deunydd gwaith cartref i'w hanfon ymlaen at Dewi Pws Morris, o dan ffugenw, erbyn 26 Awst. Cyfeiriad: Frondirion, Tresaith, Ceredigion, SA43 2JL. Manylion cyswllt gyda ffugenw a enw papur newydd i'w gyrru i Cered erbyn yr un dyddiad. Cyfeiriad: Cered, Campws Addysg Felin-fach, Dyffryn Aeron, SA48 8AF. cered@ceredigion.gov.uk 01545572350.

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd. Cyflwynir gwobr i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu.

Mae'r Lolfa yn cyflwyno tlws ar gyfer y papur bro a ddaw i'r brig ar ddiwedd y barnu a'r cystadlu.

Dylai fod yn llawer o hwyl, felly nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur ac ewch ati i baratoi. Gwerthfawrogi eich ymdrechion yn fawr iawn er mwyn chwifio banner Clonc ar y noson.



GORFFENNAF

- 9 Mabolgampau pentref Cwrtnewydd ar gae'r ysgol.
- 10 Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi gan Gôr Glannau Ystwyth am 7:30y.h. Elw tuag at y capel.
- 15 Helfa Drysor gan Gapel-y-Cwm, Cwmsychpant gan ddechrau o'r sgwâr am 6:30y.h.
- 16 Cneifio Llambod.
- 17 Helfa Drysor Pwyllgor Pentref Cwmann yn dechrau am 3:00y.p. o sgwar y pentref.
- 18 – 21 Sioe Frenhinol Cymru.
- 23 Ffair Fwyd Llambod am 11.00y.b. ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- 27 Diwrnod Agored - Gŵyl Archaeoleg Prydain. Golwg tu ôl i'r llenni ar waith y Comisiwn Brenhinol. 11:00 – 19:00 yn Adeilad y Goron, Plas Crug, Aberystwyth.
- 29 Noson Goffi a BBQ yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni. Elw tuag at Eglwys St Luc Llanllwni am 7.30y.h.
- 30 Ffêl y Pentre yn Neuadd y Pentref Llanfair.

AWST

- 13 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 14 Gŵyl Cobiau Aberaeron
- 20 Sioe Amaethyddol a Cheffylau Gorsgoch ac Arddangosfa Hen Beiriannau.
- 26-29 Penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun Llambod.
- 29 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Llanllwni ar gae Abercwm.

MEDI

- 2 Sioe Ffasiynau a Lansio Llyfr y Dathlu C.Ff.I. Ceredigion ym Mhrifysgol Drindod Dewi Sant, Llambod.
- 3 Sioe Llandysul.
- 9 Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach. Beirniad: Dewi Pws; Cyflwynydd: Geraint Lloyd. Beth am fod yn rhan o dîm Clonc? Mwy o fanylion i ddilyn.
- 10 Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann.
- 11 Cystadleuaeth Rownderi gyda Clwb Cledlyn ym Maes-yr-Onnen, Drefach am 2.00y.p.
- 23 200 mlwyddiant Capel-yr-Erw, Cellan yn dathlu dau ganmlwyddiant seydlu'r achos eleni. Cynhleir Cinio Dathlu yng Ngholeg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llambod ar nos Wener y 23ain o Fedi. Y gŵr gwadd fydd Y Prifardd T. James Jones. Mae croeso arbennig i bawb i ymuno yn y dathlu. Gellir archebu tocyn wrth yr ysgrifenyddes Eirios Jones, Felindre, 01570 422 255 a'r dyddiad cau yw'r 17eg o Fedi.
- 24 Noson yng Nghlwb Rygbi Llanybydder yng nghwmni Clive Edwards ac eraill am 8:00y.h. Elw tuag at Ymchwil Cancr.
- 25 Cwrdd Dathlu 50 mlynedd Gweinidogaeth y Parch. Hugh Mathews yn Noddfa am 2.00y.p.
- 26 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7.00y.h.

HYDREF

- 1 Cyngerdd gan Côr Cwmann a'r Cylch ynghyd ag Aled Edwards, Eleri Owen Edwards, Kees Huysmans a pharti bechgyn Dyffryn Cothi yn Neuadd Brofana Ffarmers am 7.30 yr hwyr. Elw tuag at Ambiwllans Awyr ac Ymchwil y Cancr.
- 12-14 Sioe Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yn Theatr Felinfach.
- 20 Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.

TACHWEDD

- 4 Noson Tân Gwyllt yn Rhydiau, Drefach am 7.00 y.h.
- 10 + 12 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 12 Gŵyl Gerdd Dant Cwm Gwendraeth.
- 19 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yng Nghlwyd.

RHAGFYR

- 4 Cymanfa Ganu Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yng Nghapel Tabernacl, Aberaeron.

Llanfair Clydogau



Yn festri Brondeifi yn ddiweddar fe lawnsiodd Alan Leech ei lyfr newydd sef Hunangofiant 'Dan Jenkins, His Life and Times in Cardiganshire and Carmarthenshire'. Yn ystod y noson, cyflwynodd yr awdur y llyfr i wyrion Dan Jenkins. Yn y llun o'r chwith i'r dde Ivor Lloyd, Mary Davies, Alan Leech ac Aeron Jenkins. Roedd Evan Lloyd yn absennol o'r llun.

Lawnsio Llyfr Newydd

Cafwyd noswaith ddiddorol yn llawn gwybodaeth pan lawnsiodd Alan Leech ei lyfr newydd - Dan Jenkins - A Biography ; hanes ei fywyd a'i amser pan oedd yn brifathro yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin. Siaradodd am ei dalentau a'i ddylanwadau ar blant a phobl yr ardal pan oedd yn brifathro ysgol y pentref Llanfair Clydogau o'r flwyddyn 1878 hyd 1897. Yna yn ysgol Llanyerwys hyd ei ymddeoliad yn 1920. Efe a ddechreuodd ddysgu Cymraeg pan oedd y gyfraith yn gaeth; addysg Saesneg yn unig yn ein hysgolion, ac efe a ddechreuodd ddathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy gynnal cyngerdd yn flynyddol gyda chanu a barddoniaeth wedi ei gyfansoddi gan feirdd enwog yr amser. Casglodd y cyfan yma dros y blynyddoedd o 1901 hyd 1920 a'u cyhoeddi mewn llyfr o'r enw Cerddi Ysgol Llanyerwys. Roedd yn ddyn o flaen ei amser mewn addysg yng Nghymru. 'Pleser anferth oedd cael ein diddanu gan dalent ei ddisgynyddion Ifor Lloyd, Megan Mai Jones a Nia Beca Jones - talent canu wedi ei drosglwyddo drwy'r cenedlaethau. Roedd y festri yn orlawn a phawb wedi mwynhau noswaith arbennig. Diolch i'r Lolfa am luniaeth fendigedig a baratowyd gan Delyth Jones, Ffos y Ffin.

Cymdeithas Hanes Llanfair

Y gŵr gwadd ym Mis Mehefin oedd Alan Leech, Tan yr Esgair, a ddaeth i gyflwyno a siarad am ei lyfr newydd ar hanes Dan Jenkins. Siaradodd a dangosodd luniau am ei amser pan fu y gŵr talentog yma yn brifathro yn ysgol y pentref, a'i ddylanwadau enfawr ar plant a theuluoedd yr ardal. Gwelwyd lluniau pwysig a chopïau o hen ddogfennau hanesyddol a gasglwyd gan Dan Jenkins mewn llyfr scrap. Bu yn casglu i'r llyfr yma drwy ei fywyd.

Clwb Cerdded Llanfair

Ar Mehefin 5ed aeth nifer dda o'r pentref am dro lan hewl Llangybi a draw heibio Gogoyan a lan i fferm Olmarch Fawr lle'r oedd croeso cynnes a the blasus yn eu disgwyl. Ar ôl seibiant ac amser i gymdeithasu aeth y rhai dewr yn ôl yr un ffordd i bentref Llanfair, gyda rhai wedi blino mwy na'i gilydd. Diolch yn gynnes iawn i Ann ac Odwyn am eu caredigrwyd a phawb fu yn helpu.

Gŵyl Gwrw a Barbiciw

Cynhaliwyd y bumed ŵyl gwrw ar Mehefin 3ydd ac ym marn pawb hon oedd y gorau eto. Dechreuwyd yr ŵyl ar y dydd Gwener, ac er fod y tywydd yn eithaf oer, daeth nifer dda ynghyd i flas y chwech cwrw Cymraeg oedd ar gael. Cariodd yr ŵyl ymlaen ar y pnawn Sadwrn gyda barbiciw yn dechrau am 6.30. Roedd y lle yn orlawn, a phawb wedi cael amser gwych yn bwyta, yfed a chymdeithasu. Diolch i bawb a gyfrannodd i baratoi, coginio bwyd a chlirio i fyny. Diolch i Lesley a Glenys a fu yn gyfrifol am y bar a'r cwrw ac i unrhyw un arall a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud y penwythnos mor llwyddiannus.

Neuadd y Pentref

Penderfynodd y pwyllgor i wneud gwelliant i'r llwybr sy'n arwain at y neuadd. Bu grŵp o'r pwyllgor yn gweithio'n galed i glirio a rhoi syment i lawr o ymyl yr hewl hyd at y llwybr presennol. Mae y llwybr, sy'n arwain i'r neuadd a'r fynwent, nawr yn lân ac yn daclus.

Dymuniadau da

Hoffem, ar ran bobol y pentref, ddymuno ymddeoliad hir ac hapus i Canon Aled Williams. Bu Aled yn rhan pwysig o fywyd crefyddol y pentref dros nifer fawr o flynyddoedd. Pob bendith iddo ef a Mrs Williams.

Sarn Helen



D L Williams Glasgow House, 12-14 Stryd y Coleg Llambled a Talylychau noddodd ras 5k Talylychau. Josh Griffiths o Gaerfyrddin enillodd y ras o dan 18 mewn 16 munud 23 eiliad, 2il Gareth Jones Llambled, 3ydd Liam Jeffreys Tre-gib. 1af dynion agored Jack Davey 17 munud 07 eiliad, 2il Daniel Hooper Sarn Helen 18 munud 10 eiliad, 3ydd Gethin Jones Sarn Helen 18 munud 20 eiliad. 1af dynion 40 Glyn Price Sarn Helen 17 munud 31 eiliad, 2il Michael Davies Sarn Helen 17 munud 52 eiliad, 3ydd Kevin Griffiths Trots 18 munud. Jade Griffiths Amman Valley enillodd y categori menywod agored mewn 18 munud 32 eiliad, 2il Sian Jones Amman Valley 20 munud 48 eiliad, 3ydd Elizabeth Jones 21 munud 09 eiliad. 1af menywod 35 Ana O'Neill Pembrokehire Harriers 19 munud 37 eiliad, 2il Nicola Quinn Emlyn 20 munud 34 eiliad, 3ydd Caroline Jones Trots 21 munud 21 eiliad. 1af dan 18 Kari O'Neill Tre-gib 20 munud 37 eiliad, 2il Caitlin Page Sarn Helen 21 munud 11 eiliad, 3ydd Amber Howell Amman Valley 21 munud 27 seconds. Ras filltir 1af merched Ceris Davies Carmarthen Harriers 6 munud 36.88 eiliad, 2il Mared Owen Carmarthen Harriers 6 munud 36.93 eiliad. 3ydd Grace Page Sarn Helen 7 munud 42 eiliad. 1af bechgyn Thomas Willough Sarn Helen 6 munud 50 eiliad, 2il Daniel Lewis Sarn Helen 6 munud 56 eiliad, 3ydd Sam Barmmled Ffynnonbedr 7 munud 01 eiliad.

Eric Rees oedd y cyntaf nôl o'r clwb yn ras Dinas Head, mewn 35 munud, 57 eiliad, Simon Hall 36 munud 43 eiliad, Tony Hall 40 munud 09 eiliad, Gareth Jones 42 munud 56 eiliad, Lyn Rees 45 munud 14 eiliad, Caryl Davies oedd y cyntaf menywod agored 46 munud 52 eiliad, a Allen Watts 1 awr 21 munud 20 eiliad.

Bu Caitlin a Grace Page yn cystadlu ar drac yng Nghastell Nedd ac enillodd Caitlin yr 800 medr dan 15 oed mewn 2 funud 40 eiliad, a Grace yn 7fed yn y 800 medr mewn 3 munud 03 eiliad. Aeth Gethin a Sian Roberts-Jones i Landudno i'r 10K, Gethin Jones yn gorffen mewn awr 02 munud 44 eiliad, a Sian Roberts-Jones 1 awr 18 munud 15 eiliad. Yn Ras fynydd Cader Idris roedd Haydn Lloyd yn gorffen mewn 2 awr 09 munud 38 eiliad a Caryl Davies 2 awr 28 munud a 03 eiliad.

10K Llisyfran Sir Benfro, Glyn Price yn gorffen yn ail 33 munud 08 eiliad, 5- Michael Davies 35 munud 14 eiliad, 6- a 3ydd dynion agored Gethin Jones 35 munud 31 eiliad, 9- Eric Rees 37 munud 23 eiliad, 10- Teifion Davies 27 munud 29 eiliad, 40- Gareth Jones 43 munud 41 eiliad, 47- Sian Roberts-Jones 45 munud 36 eiliad, 52- Caryl Davies 46 munud 52 eiliad, 54- David Thomas 47 munud 22 eiliad, 55- Lyn Rees 47 munud 30 eiliad, 71- Allen Watts lawr 29 munud. A'r tîm yn mynd i Sarn Helen Glyn Price, Michael Davies, Gethin Jones ac Eric Rees.

Y penwythnos diwethaf cystadlodd Sarn Helen yn ras gyfnewid cestyll Cymru. Roedd y ras yn dechrau am 10-30 yb ger castell Caernarfon, gyda noson o gwsg yn y Drenewydd, ac ail ddechrau bore Sul am 7 o'r goch ac yn y prynhawn yng nghastell Caerdydd. Mae yn 210 o filltiroedd dros 20 o gymalau a phum deg a wyth o glybiau yn cystadlu. Ar ddiwedd dydd Sul roedd Sarn Helen wedi gorffen y ras mewn 23 awr 59 munud a 32 eiliadau, ac yn yr ail safle ar bymtheg. Canlyniadau ardderchog i'r clwb.

Bore dydd Sadwrn y tywydd yn heulog a Teifion Davies yn dechrau allan o Gaernarfon i Benygors mewn 1 awr 02 eiliad, ac yn 13eg, i Griccieth 28fed Mark Dunscombe 1 awr 13 munud 40 eiliad, Maentwrog 15- Carwyn Thomas 1 awr 18 munud 37 eiliad, Castell Harlech 26- Gareth Jones 1 awr 10 munud 12 eiliad, Barmouth 42- Caryl Davies 1 awr 14 munud 44 eiliad, Dolgellau 32- Dawn Kenwright 1 awr 18 munud 42 eiliad, Dinas Mawddwy 28 Steve Holmes 1 awr 06 munud 48 eiliad, Foel 18- Andrew Abbott 1 awr 10 munud 20 eiliad, Llanfair Caereinion 36- David Thomas 1 awr 04 munud 57 eiliad, a hanner marathon diwethaf y dydd i'r Drenewydd oedd Eric Rees yn 29fed 1 awr 31 munud 15 eiliad.

7 o'r goch fore Sul a dyna ddiwrnod gwahanol, y glaw wedi ein cyrraedd a Glyn Price yn barod i ddechrau ei gymal o hanner farathon i Lanbadarn Fynydd mewn awr 15 munud a 42 eiliad ac yn gorffen yn 10fed, Crossgates 16ed Huw Price 1 awr 10 munud 49 eiliad, Llanfair Ym Muallt 13- Tony Hall 1 awr 09 munud 32 eiliad, Drovers Arms (copa Epynt) 24- Daniel Hooper 1 awr 16 munud 07 eiliad, Aberhoddu 8- Michael Davies 1 awr 16 munud 28 eiliad, Storey Arms 45- Haydn Lloyd 1 awr 10 munud 08 eiliad, Merthyr Tydfil 11- Simon Hall 59 munud 54 eiliad, Abercynon 37- Helen Willoughby 1 awr 09 munud 51 eiliad, gastell Caerphilly 17- Richard Marks 1 awr 13 munud 03 eiliad, a'r cymal ddiwethaf i gastell Caerdydd oedd Gethin Jones ac yn gorffen yn 14eg mewn awr 06 munud a 24 eiliad.

Carwyn Thomas enillodd Ras yr Hafod mewn 40 munud 45 eiliad, 3ydd a 1af dynion 40 Michael Davies 43 munud 47 eiliad, 8- Gethin Jones 47 munud, 9- Simon Hall 47 munud 20 eiliad, 20 - Calvin Williams 50 munud 17 eiliad, 21- Tony Hall 50 munud 21 eiliad, 26- Gwydion Williams 51 munud 15 eiliad, 31- Gareth Jones 55 munud 12 eiliad, 33- a 2il menywod agored Caryl Davies 55 munud 50 eiliad, 36- Ormond Williams 58 munud 38 eiliad, 37- Helen Willoughby 58 munud 47 eiliad. Ras y plant blwyddyn 3/4 2il Dafydd Lewis 3ydd Lowri Lewis. Grace Page enillodd ras blwyddyn 5/6 a cyntaf bechgyn i Thomas Willoughby, 2il, Daniel Lewis, 4ydd Sam Brammled a 5ed Daniel Willoughby.

Cloncerwyr - Glywch

Angen! Pobl i ysgrifennu geiriau ar gyfer caneuon i'r gitâr.

Erbyn Pryd? Medi 2011

Pam? Bydd cwrs dysgu'r gitâr yn cychwyn yn yr Hedyn Mwstard.

Gan bwy? Gerald Morgan o Dregaron

Y Cefndir - Medd Gerald... dw i wedi canu'r gitâr ers fy arddedau ac wedi cael llawer o bleser yn dysgu caneuon gwerin, pop a "blues." Wrth ymdopi â "finger picking" dysgaiss fod llawer mwy i'r grefft o ganu'r gitâr na strymio yn unig. Ym Maesycwmmmer, Cwm Rhymni, lle'r oeddwn yn byw yn y saithdegau, cychwynnais ddosbarthiadau dysgu'r gitâr yn neuadd y pentref ac roedd nifer wedi mynychu'r noson a chael boddhad mawr.

Yn ystod degawd cyntaf y ganrif, dw i wedi cyfansoddi nifer o ganeuon i'r gitâr. Teimlo oeddwn y byddai hi'n beth diddorol i wahodd pobl i greu caneuon am dref Llanbedr i'w defnyddio mewn cwrs newydd dw i'n cychwyn yn yr Hydref yn yr Hedyn Mwstard. Byddai hyn yn rhoi perchnogaeth o'r cwrs i bobl y dref drwy bersonoleiddio'r cynnwys. Hyfryd fyddai canu am gymeriadau lleol, hanesion o'r filltir sgwâr a dysgu am agweddau unigolion at newyddion bob dydd yn genedlaethol a rhyngwladol megis.

A bydd yno le i hiwmor, tra'i fod yn lân a llednais...peth braf yw chwerthin bob tro! **Cyhoeddi** - Bwriedir cyhoeddi caneuon llwyddiannus yn CLONC a gwahodd y sawl sy'n gyfrifol i glywed criw y cwrs gitâr yn canu eu deunydd yn achlysurol. Mwy am hynny nes ymlaen. **Ymunw â'r Cwrs** - Mae'r cwrs ar agor i bob oedran. Gallwch fod yn canu'r gitâr yn barod neu'n gwybod dim. Nid oes angen darllen cerddoriaeth arnoch. Fyddwn ni ddim yn dilyn tudalen o gerddoriaeth ond byddwch yn cael eich dysgu drwy system syml o symbolau sy'n gyffredin yn y byd canu gitâr gwerin. Peidiwch â phrynu gitâr. Benthyciwch un i weld a oes gwir ddiddordeb gennych ac i ystyried a ydych yn mynd i fwynhau'r profiad cyn gwneud penderfyniad. **Cost?** - Mae'n rhad ac am ddim. **Pryd?** - Pob nos Wener o 4-5 o'r gloch yn yr Hedyn Mwstard, yn cychwyn Medi'r 7fed, 2011. Beth am roi Llanbedr ar y map cerddorol unwaith yn rhagor? Mae hanes eang o gerddorion byd pop Cymraeg, Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Yr Urdd, Rhuban Glas ac ati'n gysylltiedig â Llanbedr dros y blynyddoedd. Beth am fod yn rhan o broses greadigol yn cofnodi ein hanes a'n diwylliant drwy eiriau a chaneuon? **Y Cynnyrch** - E-bostiwch eich cynigion at geraldmorgan2010@hotmail.co.uk neu anfonwch nhw at Y Golygydd.

Carpedi



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arnold Davies Vincent Evans

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Mae mis Mai yn fis prysur iawn yn ysgol Cwrtnewydd gan ein bod yn cynnal ein gweithgareddau blynyddol Calan Mai. Eleni ein llywyddion oedd Mr a Mrs John Jones, Penrheol. Cyflwynwyd rhodd i'r ddau gan ddisgyblion ieuengaf yr ysgol, sef eu hwyresau Luned Jones ac Elan Jenkins.

Rhedodd nifer fawr o oedolion a phlant yn y rasy amrywiol. Enillwyd tarian y bachgen cyntaf o ysgol Cwrtnewydd gan Arwel Williams a tharian y ferch gyntaf gan Cerys Pollock. Cafwyd arwerthiant llwyddiannus iawn â phawb yn y gymuned eang yn twrio yn ddwfn iawn i'w pocedi. Tynnwyd y raffl a diolchodd cadeiryddes y Gymdeithas Rieni ac Athrawon, Eleri Jones, i bawb am lwyddo i wneud Calan Mai yn llwyddiant ysgubol eleni eto. Braf yw cael cofnodi bod Cymdeithas Rieni ac Athrawon Cwrtnewydd wedi cydweithio yn arbennig o dda i godi swm anhygoel o £4800! Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cymorth a chefnogaeth ar y diwrnod.



Rhaid oedd ffarwelio â Miss Eleri ein cogyddes gan ei bod wedi derbyn swydd yng nghartref Awel-deg, Llandysul. Cyflwynwyd rhodd a thusw o flodau iddi am saith mlynedd o wasanaeth gan Luned ac Elan.

Ar ddechrau tymor yr haf croesawyd Mr Bracy fel ein glanhawr newydd. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Gan fod yr ysgol yn cael ei defnyddio fel Gorsaf Bleidleisio, trefnwyd ein bod yn mynd ar drip addysgiadol i Aberaeron. Mi wnaeth pawb gerdded o Lanerchaeron i Aberaeron gan edrych ar natur gwyllt a harddwch y golygfeydd. Tra yn Aberaeron cafodd pawb gyfle i astudio'r harbwr a thai lliwgar y dref. Cafwyd diwrnod arbennig.

Cafodd Mrs Thomas gyfle i ymweld â'r Eidal dan gynllun WiMi. Tra yno bu'n gwneud cysylltiadau gyda gwledydd eraill. Bu'n ffodus iawn i wneud partneriaeth gyda



Sweden, Ffrainc, Iwerddon, Sbaen a Thwrci. Edrychwn ymlaen at weithio gydag ysgolion o'r gwledydd yma!

Bu plant y dosbarth bach a phlant blwyddyn tri yn mwynhau cystadlu yn chwaraeon potes yr Urdd yn Llanllwni. Cafodd y plant gyfle i gymdeithasu â disgyblion ysgolion eraill mewn nifer helaeth o gemau.

Treuliodd plant blwyddyn 4, 5 a 6 dri diwrnod llawn hwyl yng Nglanllyn. Cafodd y plant gyfle i hwylio, mynd ar gwch modur, cwrs antur, dringo - dim ond i enwi rhai o'u hanturiaethau. Cafodd

pawb dridiau wrth eu boddau!

Cafodd Briallt ac Alpha y cyfle i ymweld ag Ysgol Uwchradd Llanbed am y dydd. Roedd y merched wedi mwynhau ac maent yn edrych ymlaen at ymuno â'r disgyblion ym mis Medi.

Croeso cynnes i Mrs Jo Fice i'r gegin fel ein cogyddes newydd, gobeithio gwnewch fwynhau yn ein plith.

Bu plant Ysgol Cwrtnewydd yn brysur iawn dros yr hanner tymor - yn gynnar iawn ar fore dydd Llun bu aelodau'r Parti Unsain yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe a'r Fro. Toc ar ôl unarddeg

o'r gloch roedd gan y plant ragbrawf arall sef y Ddawns Greadigol, braf oedd gweld dau ar hugain o'r plant yn mwynhau'r profiad o greu stori Cantref Gwaelod drwy ddawns. Daeth cyffro mawr pan glywodd y plant eu bod drwyddo i lwyfan y pafiliwn. Dyna brofiad gwych a gafodd y plant a braf oedd gweld yr holl blant wedi rhoi o'u gorau dros eu hysgol. Cipiodd Dawns Greadigol Ysgol Cwrtnewydd yr ail wobr.

Rhaid oedd codi'n gynnar eto ar fore dydd Mawrth gan fod y plant mewn rhagbrawf Grŵp Cerddoriaeth Greadigol. Perfformiodd y plant yn wych gan roi o'u gorau unwaith eto. Adref aeth pawb o Abertawe

wedi cael eisteddfod lwyddiannus, ond wedi blino'n lan ac yn barod am rai diwrnodau o wyliau! Fel rhan o waith cartref yr eisteddfod bu plant hŷn yr ysgol yn cyfansoddi cerddoriaeth a braf oedd clywed eu bod hwy hefyd wedi cipio'r ail wobr. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd!

Croesawyd Ffion Davies, myfyrwraig flwyddyn gyntaf o Goleg y Drindod i'r ysgol ar ddechrau yr hanner tymor ac erbyn hyn mae Ffion wedi setlo mewn i fywyd prysur ysgol ac yn mwynhau yn ein plith.

Bu plant yr ysgol yn ffodus iawn i dderbyn diwrnod o weithgareddau gan PC Gwyndaf Lloyd a fu'n sôn wrth y plant am beryglon meddyginiaeth, cyffuriau, alcohol a thobacco. Diolchwn iddo am ei waith a hefyd dymunwn yn dda iddo ar ei ymdeoliad.

Mae dosbarth y babanod yn ffodus iawn y tymor hwn am eu bod yn cael y cyfle i fynd i'r pwll nofio yn Llanbed bob pythefnos, profiad gwych i'r plant bach! Hefyd yn wythnosol mae'r plant yn derbyn hyfforddiant drama gan Ffion Medi o Theatr Felinfach ac mae'r plant yn mwynhau'r profiad hyn yn fawr.

Clwb 100

Ebrill 2011

1af – Beca Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant. 2ail – Elin Davies, Tyngrug Isaf, Cwmsychbant. 3ydd – Mrs Olwen Roberts, 12 Glyn Bedw, Rhoslefain. 4ydd – Mr Dafydd Davies, Gerynant, Drefach.

Mai 2011

1af – Mrs Ceinwen Jenkins, Ceulan, Maestir. 2ail – Ffion Williams, Brynhaul, Maesucrugiau. 3ydd – Mr Sion Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant. 4ydd – G & M Humphries, Llwynceilyn, Llanllawddog

Mehefin 2011

1af – Marian Morgan, Glasfan, Drefach. 2ail – Mrs Mair Page, 5 Barly Mow, Llanbed. 3ydd – Mrs Nanna Jones, Garth, Cwrtnewydd. 4ydd – Mr Lewis Davies, Cilmeri, Llanwenog.

COFIWCH
dal
CLWB CLONC
£5 y rhif
mor fuan â phosib.
i'w ddanfoni:
Mrs Mary Davies,
Maesglas, Drefach
yn y dyddiau nesaf.
Gwobrau da i'w
hennill

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Maggie Evans, Bryn, Llanwnnen ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn ddiweddar. Hefyd, diolch i Staff Cartref Maes-y-felin, Drefach am eu gofal tyner amdani.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Jean Richards, Elmo a'i garddwrn yn well erbyn hyn yn dilyn ei hanffawd ddiweddar.

Capel Seion

Cynhaliwyd y SENANA eleni yn Seion ar y 14eg o Fehefin pan oedd cynrychiolaeth o'r chwech capel yn bresennol. Croesawyd pawb i'r oedfa gan y gweinidog y Parch Jill Tomos. Dechreuwyd yr oedfa gan aelodau Seion drwy ddarlenniad a gweiddi gan Olga Thomas a Sulwen Lloyd. Brenda Jones oedd wrth yr organ.

Ein gwraig wadd eleni oedd Mrs Sally Ball o Gaerffili, a oedd wedi bod allan yn gwirfoddoli yn TSEINA yn ddiweddar ar ran y BMS. Bu yn sôn am ei gwaith yn yr ysgolion yn bennaf a bu'n dangos sleidiau o'i gwaith yno. Cafwyd noson a fydd yn aros yn y cof am hir amser. Aeth pawb i'r festri i gael cwpaned o de a bisgedi ar ddiwedd yr oedfa.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â theulu Pensarn Cottage ar eu profedigaeth yn ddiweddar.

Croeso

Estynnwn groeso i Elen Grantham sydd wedi symud atom i fyw i'r pentref.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i Helen Davies, Bwlch-y-Berllan ar ei swydd newydd fel athrawes yn Ysgol Gynradd Penuwch.

Mabolgampau Cwrtnewydd

Cynhelir Mabolgampau Blynyddol y pentref ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed am 1:00y.p. Os bydd yn wlyb ar y diwrnod yma cynhelir y mabolgampau wedyn ar y nos Lun ganlynol sef yr 11eg o Orffennaf am 5.00y.h.

Croeso cynnes i bawb.

I'w Osod ar Rent
Tŷ Capel-y-Bryn,
Cwrtnewydd
Dwy ystafell wely,
Gwres canolog olew.
Manylion pellach
drwy ffonio:
01570 434270.

Drefach a Llanwenog

C.Ff.I Llanwenog

Cafwyd croeso ar fferm Pantydefaid wrth i Glwb Ffermwyr Ifanc Pontisan gynnal Rali Ceredigion 2011. Braidd yn wlyb oedd y bore ond aeth y cystadlu ymlaen serch y tywydd. Bu nifer helaeth o'r clwb yn cystadlu mewn nifer o wahanol gystadlaethau yn ystod y dydd.

Braf oedd gweld Enfys Hatcher ar lwyfan y rali yn edrych yn smart iawn yn ei ffrog morwyn i frenhines y sir. Hefyd yno oedd Sioned Davies fel aelod iau y flwyddyn a Manon Richards cyn-aelod ac arweinydd y clwb fel Is-gadeirydd y Sir.

Ar ôl cystadlu brwd yn ystod y dydd a llawer iawn o lwyddiant rhaid oedd aros i'r canlyniadau terfynol. Daeth llawenydd mawr i'r clwb wrth glywed ein bod wedi ennill y rali gyda 159 marc.

Dyma canlyniadau'r dydd:-

Dawnsio – 1af

Diogelwch Tân – 1af

Meimo – 1af

CFfI Factor – 1af

Ar y Newyddion -1af

Barnu Defaid 21 oed neu iau - 1af

Sioned Fflur – Tîm – 6ed

Cystadleuaeth yr Aelodau - 4ydd Llanwenog

Crefft (dan 16) - 2il Wyn Davies

Coginio - 3ydd Enfys a Gethin

Blodau (dan 26) - 9fed Gwennan

Arddangosfa Prif Gylch - 2il

I goroni'r diwrnod cyhoeddwyd ein bod fel clwb wedi ennill cwpan Gwynne am y clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir am 2010 – 2011. Dyma beth yw diwedd arbennig i flwyddyn arbennig!

Cafwyd dathlu mawr ar noson y rali yng Nghefnhafod Gorsgoch ac yna ynawns y rali.

Bu rhaid gohirio'r gystadleuaeth athletau'r sir gan ei bod yn tywallt y glaw, nodweddiadol o dywydd Ceredigion!

Cynhaliwyd ein barbiciw blynyddol yng Nghefnhafod Gorsgoch, braf oedd gweld pawb yn joio a chymdeithasu. Cafwyd cacen i'n llongyfarch am lwyddiant y rali ac am holl lwyddiannau'r flwyddyn gan ein llywyddion sef Elfyn a Sharon Morgans. Diolch i Geraint a Eiddwen Hatcher am eu croeso cynnes unwaith eto.

Gwahoddwyd clwb Pontsian i'n plith am noson o goetio a thynnu'r gelyn ond unwaith eto y tywydd a wnaeth ennill a rhaid oedd cael gemau o 'Dip-it a dominos tu fewn yng Nghefnhafod.

Erbyn hyn mae bron yn ddiwedd ar flwyddyn o gymdeithasu, cystadlu a joio ym mywyd y C.Ff.I.

Mae 2010-2011 wedi bod yn flwyddyn i'w chofio i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog ac mae'n rhaid dymuno pob lwc i bob aelod o'r clwb a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn y sioe Frenhinol yn

Llanelwedd ym mis Gorffennaf. Hoffai'r aelodau ddiolch o galon i bawb sydd wedi eu hyfforddi a'u cefnogi dros y flwyddyn lwyddiannus yma!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Gwawr Jones, Meysydd, Llanwenog ar dderbyn gradd M. Phil. yn ddiweddar. Testun ei thesis oedd 'Hanes y Faled yn y Bedwaredd ganrif ar bymtheg' a oedd yn seiliedig ar astudiaeth o gasgliadau helaeth o faledi gyfansoddwyd yn y cyfnod hwnnw.

Mae Gwawr bellach wedi derbyn ysgoloriaeth Prifysgol Cymru i barhau i astudio Cerddoriaeth ym Mangor. Bydd yn astudio ar gyfer cwrs Doethuriaeth ac yn cyfrannu at addysgu yn yr adran.

Pob dymuniad da i ti Gwawr ar gyfer y dyfodol, gan obeithio y cei di gyfle i barhau i gyfeilio ar y delyn a'r piano yn ogystal â dilyn dy lwybr academaidd.

Eglwys Santes Gwenog.

Syfyrdanwyd ardal eang pan ddaeth y newyddion am ddamwain ddifrifol Jac Evans, Vale of Cledlyn, Drefach, wrth groesi'r heol yn ymyl ei gartref, ddiwrnod cyn ei ben blwydd yn naw oed. Derbyniodd lawdriniaeth yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd, ond braf yw ei weld nôl adre yn gwella'n foddhaol iawn. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo, ac edrychwn ymlaen i'w weld nôl yn yr Eglwys a'i wên siriol.

Cafwyd noson gwis bleserus iawn yn yr 'Eglwys Fach' ar y 27ain o Fai. Pat a Victor Edwards o Bontsian fu'n fuddugol a diolch iddynt am gyflwyno'r wobwr yn ôl i goffrau'r Eglwys. Diolch i bawb am y rhoddion raffl ac i Mr a Mrs Keith Goodall am drefnu'r noson.

Yn ystod y mis cyflwynwyd siec o £300 i Mrs Ann Edwards o Dregaron ar ran Ambiwllans Awyr Cymru; canlyniad raffl a gynhaliwyd yn ystod yr Wyl Flodau Fictoriaidd yn yr Eglwys y llynedd.

Ar y 12fed o Fehefin croesawodd y Parch Suzie Bale ffrindiau ac aelodau Lleng Brydeinig Llanwenog i wasanaeth arbennig i ddathlu 90 mlynedd o fodolaeth y Sefydliad. Cafwyd anerchiad diddorol gan Gaplan y Sir, y Parchedig Canon Brendan O'Malley a fu'n olrhain hanes y Sefydliad o'r cychwyn cyntaf. Ar ddiwedd y gwasanaeth mwynhawyd te a chacen yn yr 'Eglwys Fach'. Diolch i'r gwragedd am baratoi'r lluniaueth ac i Caroline Davies yr organyddes.

Nos Fawrth 28ain o Fehefin bu'r Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tŷddewi yn derbyn aelodau newydd mewn gwasanaeth Confirmasiwn yn yr Eglwys.

Dymunwn longyfarch CFFI

Anrhydeddu dwy o sylfaenwyr Sefydliad y Merched Llanwenog



Derbyniodd Mrs Ray Davies, Crug Llanybydder a Mair Davies, Cartref Maesyfelin, Drefach, anrhydedd gan y W.I. yn Llanwenog - Mewn cydnabyddiaeth o wasanaeth hir ac ymroddedig fel sylfaenwyr y W.I. yn y plwyf. Hoffem eich gwobrwyo fel aelodau anrhydeddus gydol oes. Gwnaed y cyflwyniad ar ran Sefydliad y Merched gan Mary Thomas, Ffosffald ar ran cadeirydd y Sefydliad, Mrs Liz Tipping. Sefydlwyd y Sefydliad yn Llanwenog 64 o flynyddoedd yn ôl yn 1947.

Llanwenog am ennill y Rali ym Mhontsian ac i ddisgyblion yr ysgol a fu'n cystadlu yn Neuadd y Celfyddydau yn Aberystwyth, mewn cystadleuaeth drefnwyd gan y Cyngor Llyfrau. Bu'n rhaid iddynt actio stori a thrafod y llyfr a gwnaethant ei gwaith yn arbennig o raenus.

Clwb 100 –Mawrth.

1.Eirlys Jones, Gellideg;

2.Glynis Morris, Drefach;

3.Lilian Davies, Llambod Ebrill

1.Charlie Butler, Llanybydder

2.Ray Davies, Crug, Llanybydder

3. Glynis Morris, Drefach.

Mai.

1.David Rees, Rhuddlan

2.Megan Jones, Cwmsychbant

3. Huw Davies, Ornant, Llanwnnen.

Ysgol Llanwenog

Braf iawn oedd cael croesawu Elen Morgan i ddosbarth y Babanod ar ddechrau tymor yr Haf. Mae Elen wedi ymgartrefu yn arbennig o dda yn ein plith. Croesawn hefyd Mrs Catrin Evans, Henbant, i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen ac i Miss Rebecca Williams sy'n dilyn cwrs dysgu Cynradd yng Ngholeg y Drindod.

Ar ddydd Gwener, Mai 13eg, bu Adran Iau Ysgol Llanwnnen a Llanwenog yng Ngholeg y Drindod. Dyma'r ymweliad olaf o chwech i'r disgyblion. Yn ystod y ddau fis olaf maent wedi cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau anturus e.e. dringo, cynllunio a chreu llochesu ac i ddangos gwerthfawrogiad am eu hymrwymiad i'r sesiynau, gwobrwywyd hwy gyda thystysgrif yr un. Bu camerau S4C yn ffilmio'r plant a chafodd ei ddarlledu ar raglen Wedi 3.

Eleni eto bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 yn cystadlu yn rownd Genedlaethol Cwis Llyfrau Cymru. O dan arweiniad ac hyfforddiant Mrs Linda Davies a Mrs Catrin Evans, perfformiodd y plant yn arbennig o dda a chafon nhw ddiwrnod i'r brenin yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Diolchwn hefyd i Tony Thomas am greu'r cloc ysblennydd a fu'n ganolbwynt i'r perfformiad ac i Eleri Lewis am ei beintio mor gelfydd. Prynhawn dydd Mawrth, Gorffennaf 12fed, estynwn groeso cynnes i'r gymuned i ddod i'r ysgol am sesiwn o adloniant a chyfle i weld y criw uchod yn perfformio'u cyflwyniad.

Yn ddiweddar fe deithiodd Blynnyddoedd 4, 5 a 6 i Ganolfan Wersylla Gweithgareddau Awyr Agored yn Llain. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i nifer o'r plant a'r staff. Cafwyd cyfle i wneud llw o weithgareddau amrywiol yn ystod yr ymweliad o ganu o amgylch



Dyma lun o Chloe Marie Jones gyda'i gwobr sef tocyn teulu i Fferm Ffantasi. Enillodd Chloe y wobwr am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth arlunio yn y Diwrnod Hwyl a gynhaliwyd yn Llanllwni yn ddiweddar.

Drefach a Llanwenog

tân agored i ymladd ei ffordd o amgylch cwrs antur pwdeleg iawn! Buom hefyd yn gwibio ar 'zip wire' a gwlychu wrth geisio adeiladu rafftiau a hwylio canŵs ar draws y llyn. Hwyl a sbri yn wir a llawer yn dweud eu bod wedi wynebu a churo heriau personol. Gobeithiwn fel ysgol i ddychwelyd yno yn y dyfodol. Ac ar y nodyn hyn dymuna'r ysgol ddiolch i'r holl weithwyr yno am eu lletygarwech dros y tridiau braf a heulog hynny.

Mae nifer o blant yr adran Iau yn gysylltiedig â chlwb drama Theatr Felinfach sy'n cyfarfod yn yr ysgol yn wythnosol. Byddant yn perfformio'u cynhyrchiad diweddaraf 'Helynt Abergigli' ar lwyfan Theatr Felinfach, ar Nos Wener, Gorffennaf 1af. Dymuniadau gorau iddynt oll.

Mae clwb TGCh wedi bod yn rhedeg dan ofalaeth Mr Arwel Evans dros y flwyddyn ddiwethaf gyda'r plant yn dysgu sut i anemeiddio a datblygu eu sgiliau ffotograffiaeth. I ddiweddu'r flwyddyn brysur mae disgyblion y clwb wedi penderfynu ffilmio a chynhyrchu ffilm fer i fynd ar wefan yr ysgol yn rhoi cip olwg unigryw o Ysgol Llanwenog o safbwynt y plentyn ar gyfer rhieni presennol a darpar rieni'r Ysgol a'u plant.

Yn ystod y tymor hwn neulltiwyd diwrnod i'r Adran Iau yng nghwmni'r arlunydd Mr Leighton Williams. Bu'r plant yn dysgu'r grefft o arlunio a chreu darluniau o olygfeydd amrywiol. Edrychwn ymlaen i weld rhai ohonynt yn ein sioeau lleol eleni.

Y tymor yma eto mae'r cwlwm rhwng ysgol Llanwenog, Cwrtnewydd a Llanwnnen yn parhau yn gryf gyda pharhad y Cynllun Tair ysgol. Yn wahanol i'r arfer mae'r plant wedi bod yn canolbwyntio ar wahanol sgiliau sef Iaith, Rhif a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae pob ysgol â maes arbennig ac erbyn diwedd y tymor bydd y plant wedi creu prosiect yn seiliedig ar ei hoff anifail neu anifail anwes.

Braf iawn yw ategu bod Jac Evans yn gwella'n dda wedi'r ddamwain ym mis Mai. Edrychwn ymlaen i'w groesawu nôl yn yr ysgol mewn fawr o dro. Ac yn olaf hoffwn, fel Ysgol, estyn ein llongyfarchiadau i Mr a Mrs Dafydd a Sioned Mills, sef, athrawes Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol, ar enedigaeth merch fach, Gwenno Elen. Roedd y plant wrth ei bodd yn cwrdd â Gwenno Elen pan ddaeth Mrs Mills â hi i'r ysgol i bawb gael ei gweld.

Dymuna'r Ysgol longyfarch Cylch

Meithrin Gwenog, y staff a'r plant am lwyddo mewn arolygaeth Estyn yn ystod y mis. Derbyniwyd adborth llafar cadarnhaol iawn gan Miss Dorothy Morris, yr arolygwraig.

Y Gymdeithas Hŷn

Ymweliad ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan oedd trip mis Mehefin, ac er cael cawod wrth gyrraedd, gwellodd y diwrnod, a phawb yn mwynhau mynd o gwmpas yr adeiladau a'r arddangosfeydd fel y mynnent. Nôl i Trevaughan, Caerfyrddin am swper, a chael pryd blasus cyn dychwelyd adre. Gwelwyd eisiau ein Trysorydd, Mrs Annie Bowen yn fawr, ac mae'r aelodau i gyd yn dymuno gwellhad llwyr a buan iddi.

Bydd y daith nesaf yn mynd i'r Amwythig ar y 13eg o fis Gorffennaf. Enwau i Yvonne 489590.

**Rhifyn mis Medi
Yn y Siopau
Medi 1af
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Awst 22ain**



Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Powys a Maesyfed, Brycheiniog a Threfaldwyn

Ym mis Gorffennaf bydd amryw byd o ddarlennwyr Clonc yn troi trwyn y car i gyfeiriad Powys ac i'r Sioe Fawr. Powys ac enwau cysylltiedig fydd yn cael sylw y tro hwn.

Yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974, cafodd siroedd newydd eu ffurfio. Yn y canolbarth llynwyd hen siroedd Maesyfed Trefaldwyn a Brycheiniog yn eu cyfanrwydd bron a ffurfiwyd sir newydd Powys.

Tarddu o'r Lladin 'pagenses' a wna'r enw Powys; a'r ystyr a roir i 'pagenses' yw 'trigolion y pagus' h.y. y bobl hynny nad oedden nhw'n byw yn y trefi - o'u cyferbynnu â thrigolion tref Rufeinig megis Wroxeter (Viroconium) yn Sir Amwythig. Mae'n anodd bod yn fanwl am union ffiniau'r hen diriogaeth gynnwys hon oherwydd does dim tystiolaeth gwbl bendant bod yr hen Bowys yn estyn hyd at Wroxeter - er bod cerddi Cymraeg o gyfnod cynnar yn cyfeirio at lys Cymreig, Pengwern, yn Amwythig.

Darford wnaeth yr hen Bowys fel tiriogaeth annibynnol yn ystod y ddeuddegfed ganrif a'i rhannu rhwng dau berson sef Madog ap Maredudd a Gwenwynwyn; eu henwau nhw a lynnodd wrth y ddwy diriogaeth newydd sef Powys Fadog a Phowys Wenwynwyn. Enw'r hen diriogaeth sef Powys a fabwysiadwyd ar gyfer y sir newydd.

O'r Lladin 'pagus' y tarddodd y Ffrangeg 'pays' a'r Gymraeg 'pau' sy'n dynodi gwlad neu diriogaeth. Cymru, yn naturiol yw'r 'hoff bau' y cyfeirir ati yn ein hanthem genedlaethol. A 'Pays de Galles' yw enw'r Ffrancwyr ar Gymru.

Mae'r enw Maesyfed yn dal fyriad o Maes Hyfaidd ac mae'r enw personol Hyfaidd yn digwydd yn 'bro Hyfaidd' a 'Brynhyfed'. Radnor yw'r enw Saesneg ar

Faesyfed ac mae'n ymddangos mai 'bryn coch' yw ystyr hwnnw a'r elfennau i'w cydio wrth ffurfiau sy'n digwydd mewn Hen Saesneg.

'Tiriogaeth Brychan' yw ystyr Brycheiniog. Mae Brychan yn enw personol. Yn ôl traddodiad, teyrnasai Brychan y wlad sy'n dwyn ei enw, yn y 5ed ganrif ac roedd yn dad i nifer anhygoel o blant - yn ôl traddodiad. Mae'r enw Brycheiniog wedi ei ffurfio trwy ychwanegu'r terfyniad tiriogaethol -iog at yr enw personol Brychan.

Gŵr o'r enw Baldwin sy'n cael ei goffáu yn Trefaldwyn, naill ai Baldwin de Bollers (13ganrif) neu Baldwin, stiward Castell Montgomery a laddwyd yn 1257 gan gefnogwyr Llywelyn Fawr.

Enw yw Montgomery a drawsblanwyd i Gymru o Normandi. Rhoddwyd tiroedd helaeth ym Mhowys i'r Norman, Roger de Montgomery. Adeiladodd hwnnw ei gastell yn yr unfed ganrif ar ddeg mewn lle o'r enw Hen Domen ger afon Hafren. Rhoddodd yr enw Montgomery ar y castell ar ôl Sainte-Foy-de-Montgommery neu Saint-Germain-de-Montgommery (Calvados) yn Normandi. Yn 1102 daeth y tir yn eiddo i Norman arall ac yn 1223-4 dechreuwyd adeiladu castell arall yno a'i alw ar ôl y naill neu'r llall o'r Baldwiniaid y soniwyd amdanynt nhw eisoes. Datblygodd trefedigaeth fach o gwmpas y castell a'i galw'n Trefaldwyn yn Gymraeg i ddangos mai tref Baldwin oedd hi. Mae'r enw personol yn digwydd, yn ogystal, yn enw'r bryngaer gerllaw, Ffridd Faldwyn.

Digwydd Powys yn elfen yn enw Dinas Powys, ger Caerdydd. Ystyr Dinas Powys yw 'caer yn Mhowys'. Mae'n ansicr, sut bynnag, beth yw union arwyddocâd y ffurf Powys yng nghyd-destun Dinas Powys a oedd yn amddiffynfa sylweddol o gyfnod yr Oes Haearn tan ddechrau'r oesoedd canol.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

**Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron**
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

**Toriad
Taclus**

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

**Ruth Thomas
a'i Chwmni
Cyfreithwyr**

19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
**Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref**

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: **01570 422401**

Ffacs: **01570 422562**

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn.
Cwrrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambed
01570 422895

Cellan

Ŵyres fach

Croeso mawr i Mari Haf, wyres fach i Robert Thomas, Llaindeg a merch i Rhodri a Lynne a chwaer fach i Lloyd.

Diolch

Diolch i bawb a fu'n casglu ar ran Cymorth Cristnogol o amgylch y pentref; Hanna, Tomos, Astrid, Alwen, Lena ac aelodau'r W.I.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Abby Davies a Jon Evans, Pontfaen Court ar eu dyweddiad diweddar.

Gwellhad Buan

Estynnwn wellhad buan iawn i Mrs Mary Jones, Glasfryn wedi ei llawdriniaeth diweddar ac hefyd i Dwynwen Davies, Y Dyfodol sydd ar wellhad wedi cyfnod o dostrwydd. Pob hwyl i'r ddwy ohonoch.

Sefydliad y Merched

Fe fydd y W.I. yn cwrdd nesaf ar y 14eg o Orffennaf yn Llanerchaeron ac yn cerdded i Aberaeron am bryd o fwyd. Pawb i gwrdd ym maes parcio, Neuadd y Milenwim am 6.30. Croeso cynnes i bawb i ymuno â ni.

1811-2011

Mae Capel-yr-Erw, Cellan yn dathlu dau ganmlwyddiant seydlu'r achos eleni. Cynhleir Cinio Dathlu yng Ngholeg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr ar nos Wener y 23ain o Fedi. Y gŵr gwadd fydd Y Prifardd T. James Jones. Mae croeso arbennig i bawb i ymuno yn y dathlu. Gellir archebu tocyn wrth yr ysgrifenyddes Eirios Jones, Felindre, 01570 422 255 a'r dyddiad cau yw'r 17eg o Fedi.

Gohebydd

Diolch yn fawr i Meinir Evans, Rhydfechan gynt am ei gwaith fel gohebydd Cellan dros y blynyddoedd diwethaf. Gwerthfawrogi dy waith yn fawr iawn.

Diolch hefyd i Alwen Edwards, Awel Teifi am ystyried cymryd y swydd am gyfnod. Braf gweld Alwen, Simon a Mari Anne wedi ymgartrefu yn y pentref. Fel gohebydd newydd, dibynna'n llwyr ar drigolion Cellan ei hysbysu o unrhyw ddigwyddiad a newyddion yn yr ardal. Tynnwch ddigon o luniau, a phasiwch y cyfan i Alwen. Diolch i bawb am eu cydweithrediad er mwyn sicrhau sylw teg i'r pentref yn Clonc.

Alltyblaca

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Cerys Lewis, 1 Bro Teifi am basio Gradd 1 ar y piano gydag anrhydedd. Gwnaeth Cerys yn arbennig gan gael marciau llawn yn y theori a'r gwaith technegol. Da iawn ti!

Diolch

Dymuna Jean, Shan a'r teulu (Dorlan) ddiolch o galon i'r holl ffrindiau alwodd gyda blodau, cacennau a chardiau, wedi colli Derrick. Diolch yn arbennig i Avril, John, Alice, Dilwyn, Flo, John, Yvonne ac Eifion am edrych ar ein hôl dros yr amser anodd yma. Hefyd i'r Parch Cen Llwyd am wasanaeth arbennig, ac i Gwilym Price am ei gefnogaeth.

Clwb Clonc

Gorffennaf 2011

£50 rhif 130:

Mrs Gwyneth Evans, Glynhir, Pentrebach, Llambled.

£50 rhif 425:

Mrs Dorothy Thomas, Hendre Rhys, Llanarth.

£25 rhif 477:

Mrs Joyce Williams, Pleasant Hill, Llanwnnen.

£25 rhif 460:

Mrs Elin Williams, Y Garn, Cwmann.

£20 rhif 395:

Mrs Anne Pugh, Brynheulwen, Heol Tregaron, Llambled.

£20 rhif 301:

Mrs Sara Humphreys-Jones, Frongelli, Alltyblaca.

£15 rhif 434:

Mrs Margaret Thomas, Llechwedd, Llanwenog.

£15 rhif 158:

Mrs Joan Evans, Pennant, Rhodfa Glynhebog, Llambled.

£10 rhif 121:

Mrs Elinor Edwards, Caemelyn, Llangeitho.

£10 rhif 5:

Teresa Brain, Greenhill, Drefach.

£10 rhif 346:

Mrs Carys Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann.

£10 rhif 287:

Mrs Eirian Jones, Hollies, Llambled.

£10 rhif 183:

Mrs Ann Gibby, Erwlun, Llanybydder.

£10 rhif 219:

Mrs Elaine Davies, Pen-y-nant, Llanwnnen.

Cwmsychpant

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Lisa Jenkins, Hafan-y-Cwm ar ôl iddi gwmpo a thorri ei braich yn ddiweddar. Gobeithio y byddi di'n well yn fuan.

Sêr Teledu

Gwelwyd Eifion Jones, Talar Wen ar raglen deledu 'Bois y Loris' ar S4C yn ddiweddar. Mae Eifion hefyd yn dweud ei hanes yn llyfr 'Bois y Loris'.

Cyhoeddir y llyfr gan Y Lolfa. Y pris yw £9.95.

Hyfryd oedd ei weld wrth ei waith yn ddyddiol yn casglu sbwriel i gwmni lleol LAS Llambled.

Hefyd, gwelwyd Sion Jenkins, Hafan-y-Cwm yn siarad ar raglen 'Ffermio' yn ddiweddar ac fe'i gwelwyd yn cneifio ar fferm un o'r teulu yn Eglwysrwr.



Helfa Drysor

Cynhelir Helfa Drysor gan gychwyn o Gapel-y-Cwm ar nos Wener, Gorffennaf 15fed am 6:30y.h. Mae croeso cynnes i chi gyd. £5 y car yw'r gost.

Rali C.Ff.I. Ceredigion

Hyfryd oedd gweld John a Mary Jones, Penrheol yn lywyddion Rali Flynyddol y Ffermyr Ifanc ar fferm Pantydefaid yn ddiweddar.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON
ARDAL LLANYBYDDER
LLANBEDR PONT STEFFAN

GARDDWEST

Stondinau llysiau, boteli a mwy

yn Frongelli, Alltyblaca
trwy garedigrwydd Mrs Sarah Humphreys Jones

Sadwrn 16 Gorffennaf 2011, 2 - 5 yh.
£2-00 neu rodd

Llywydd: Mr Chris Saunders, LAS
Llanbedr Pont Steffan
Elw tuag at BHF Apêl Nyrs Calon
Ceredigion
Rhif Elusen 225971

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

10fed Medi 2011

Llywydd: Mr Elfyn Williams, Idole

Sioe, Cystadlaethau CFFI, Arddangosfa Adar
Ysglyfaethus, Gwartheg Ucheldir a Defaid
Prin, Bar, ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher

01570 481230 / 07967 559683

Llanbedr Pont Steffan

Ymddiheuriadau i'r ddau ddiolch isod na ymddangosodd yn rhifyn mis Mai:

Diolch

Dymuna Llŷr Williams (priod Rhian, Gerlan) ddiolch yn fawr iawn i bawb o ardal Llanbedr a wnaeth ei noddi wrth iddo redeg marathon Virgin Llundain ym mis Ebrill. Ei ddewis elusen oedd Juvenile Diabetes Research Fund ac mae cyfanswm y cyfraniadau bellach yn ddwy fil a hanner. Llwyddodd Llŷr i groesi'r linell derfyn mewn amseriad o bum awr a phedwardeg munud mewn haul tanbaid. Diolch yn fawr am y gefnogaeth a'r cyfraniadau hael.

Hefyd, dymuna Gwenda, 5 Kings Mead, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a fynegwyd tuag ati hi a'r teulu adeg marwolaeth ei phriod John.

Hoffai hefyd ddiolch am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at Uned Gofal Dwys, Ysbyty Glangwili. Bwriedir trosglwyddo'r cyfanswm o £1,000 iddynt yn fuan.

Gwellhad Buan

Estynnir gwellhad buan i Vincent Davies, Brynmeddyg, [Vincent y Bws] sydd wedi treulio peth amser mewn ysbyty yn ddiweddar.

Aelwyd Newydd

Croeso i Llanbedr i Mrs May Lewis i'w chartref newydd yn y Stryd Newydd gan iddi symud o Dalardd, Llanwnnen. Gobeithio y cewch flynyddoedd o iechyd ac hapusrwydd yno.

Diolch

Dymuna Ieuan, Gaynor a Dylan, Glynteifi a'r teulu ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chymwynasau lu yn dilyn eu profedigaeth adeg colli merch, chwaer a phartner annwyl Nigel, mam arbennig i Cara a Dion sef Angela (gynt o Llanbedr) o Rhosallaw, Talgarreg.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theuluoedd Ceulan, Hollis, Mair Page a'u teuluoedd i gyd yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith ac ewythr sef Handel Rees, gŵr Myfi a oedd yn byw allan yn Awstralia.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar nos Fercher y 25ain o Fai cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af – Gwendoline Davies, Llanwnnen, 2il – Peter Jones, Llanbedr, 3ydd – Mai Williams, Tregaron. Merched: 1af – Ifan P. Jones, Aberarth, 2il

– Catrina Davies, Aberaeron, 3ydd – Margret Jones, Pentrebach. Carden Miniature: Dynion – Ray Jenkins, Llanbydder. Merched – Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach. Bwrw Allan: Enillwyr – Gwendoline Jones, Llanbydder a Edward Lockyer, Hafan Deg. Ail – Lil Thomas, Ffostrasol a Ifan John Jones, Brohenllys, Hafan Deg.

Enillwyr yr 8fed o Fehefin fel a ganlyn – Dynion: 1af – Gwendoline Davies, Llanwnnen, 2il – Ceri Lloyd, Ffostrasol, 3ydd – Gwendoline Jones, Llanbydder. Merched: 1af – Iorwerth Evans, Llangybi, 2il – Yvonne Jones, Tregaron, 3ydd – Nana Davies, Stryd Newydd, Llanbedr. Carden Miniature: Dynion – Edward Lockyer, Llanbedr. Merched – Sara Humphreys, Alltyblacca. Bwrw Allan: Enillwyr – Mary Jones, Stryd y Bont, Llanbedr a Nancy Davies, Heol y Wig, Llanbedr. Ail – Gwendoline Davies, Llanwnnen a Lil Thomas, Ffostrasol. Diolchodd y trefnydd Gwen Davies, Llanwnnen i bawb am eu cefnogaeth. Bydd Gyrfaoddd Chwist mis Gorffennaf ar nos Fercher 6ed a'r 20fed. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Pen-blwydd Arbennig

Pob dymuniad da i Derek Evans, Haulfryn, 1 Maesyllan ar ei ben-blwydd arbennig ar 10 Awst. Hwyl fawr gyda'r dathlu.

Deunaw Oed

Pen-blwydd hapus i Lisa Moore a fydd yn 18 oed ar 17eg o Orffennaf. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Llwyddiant Aelwyd yr Urdd

Pleser yw cyhoeddi llwyddiant aelodau Aelwyd yr Urdd Llanbedr Pont Steffan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe a'r fro. Cyflawnodd y parti llefaru dan 15 oed gamp arbennig drwy ennill y wobr gyntaf am gyfanwaith gwefreiddiol, meistrolgar, sensitif, celfydd a rhyfeddol o aeddfed o'r gerdd Gwên gan Bryan Martin Davies, yn ôl y beirniaid Eleri Richards a Geraint Hughes. "Mae'n anodd ail-greu gwefr ond fe lwyddoch am yr eildro heddiw i greu ias ac ing y darlun dirdynol sydd yn y gerdd," oedd eu sylwadau pellach.

Bu'n rhaid aros rhai oriau am y canlyniad a mawr oedd y cymeradwyo a'r bloeddio wrth i Lowri Elen a Melissa, trysorydd ac ysgrifennydd yr Aelwyd dderbyn y wobr sef Tlws Adran Glanaman. Mae'r aelodau yn ddyledus iawn i Elin ei hyfforddwraig am ei hymroddiad a'i brwdfrydedd heintus. Hefyd dyfarnwyd y parti cerdd dant

dan 19 oed yn drydydd a diolchir yn gynnes i Rhiannon a Delyth Medi am roi o'u hamser i'w hyfforddi. Yn ogystal â hyn gwelwyd Elliw Dafydd yn cipio'r trydydd safle yn y gystadleuaeth unawd allan o sioe gerdd. Nid ar chwarae bach mae cyrraedd llwyfan Prifwyl yr Urdd ac estynnir llongyfarchiadau calonnog i'r aelodau i gyd ar eu llwyddiant ac am ddod â chlod ac anrhydedd i'r ardal unwaith eto.

Dymuna swyddogion yr Aelwyd ddatgan eu gwerthfawrogiad cynnes i'r rhieni am eu parodrwydd i ddarparu cludiant i'r aelodau i Abertawe ac am bob cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

Braf oedd clywed am lwyddiant cyn aelodau'r Aelwyd sef Delyth Medi gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf Caerdydd a Mair Long gydag Ysgol Gynradd Y Wern Caerdydd. Roedd Ysgol Glantaf yn fuddugol mewn nifer o gystadlaethau yn yr adran gerdd tra roedd Ysgol y Wern yn fuddugol yng nghystadleuaeth y gân actol. Llongyfarchion iddynt a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Ymchwil y Cancr – Pwyllgor Llanbedr a Llanbydder

Yng nghyfarfod blynyddol Ymchwil y Cancr Cangen Llanbedr a Llanbydder adroddwyd fod cyfraniadau o £4,892.41 wedi dod i law yn ystod blwyddyn 2010. Roedd hwn yn dod â'r cyfanswm o arian a godwyd gan y gangen i £256,295.81 ers y cychwyn 32 o flynyddoedd yn ôl. Yn barod yn ystod 2011 roedd £4,315.78 wedi dod i law yn cynnwys cyfraniad sylweddol o £2,512.22 o gwmni Biffa Talsarn. Diolchodd y trysorydd Mr Cyril Davies yn ddiffuant iawn am bob cyfraniad roedd wedi ei dderbyn at yr Ymchwil a chadarnhaodd fod pob swm roedd yn ei ddanfoni ymlaen yn cael ei benodi at Ymchwil y Cancr yng Nghymru yn ôl dymuniad y pwyllgor.

Yn ei adroddiad dywedodd y cadeirydd Y Parch Goronwy Evans ei fod wedi cael llawer o bleser yn arwain y pwyllgor am gyfnod o dros 25 o flynyddoedd ac roedd yn ddiolchgar dros ben am bob cefnogaeth roedd wedi ei gael ac am haelioni bobl yr ardal yn cyfrannu dros chwarter miliwn at achos mor deilwng. Erbyn hyn roedd am drosglwyddo yr awenau i rywun arall. Diolchwyd iddo am ei waith rhagorol a chydwybodol gan yr Is Gadeirydd Mr Aneurin Davies Llanbydder. Etholwyd Mr Davies yn gadeirydd ac ail etholwyd Miss Joan James yn ysgrifennyddes a Mr Cyril Davies yn drysorydd.

Yn ystod 2011 mae adran Llanbydder yn trefnu gweithgareddau yn cynnwys cyngerdd i'w gynnal yng Nghlwb

Rygbi Llanbydder ar Sadwrn 24 o Fedi. Adroddwyd hefyd fod Côr Cwmann yn cynnal cyngerdd yn Neuadd Brofana Ffarmers ar Sadwrn 1af o Hydref a'r elw yn cael ei rannu rhwng Ymchwil y Cancr a'r Ambiwylans Awyr.

Capel Brondeifi

Trist oedd clywed y newyddion o Awstralia am farwolaeth, Mr Handel Rees, sef priod Myfi, Hendryd gynt. Teithiodd ei chwaer, Eirian Jones a'i nith, Meinir Douglas i Awstralia i fod gyda'r teulu a chydymdeimlir yn fawr iawn â'r teulu a'r cysylltiadau yn eu hiraeth.

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn hefyd â Mrs Valmai Pughe a'r teulu ar farwolaeth sydyn ei phriod, Elwyn. Roedd hefyd yn frawd yng nghyfraith i Vernon a Mary Jones a Wynford Jones. Bu'r cynhebrwng yn Brondeifi ar ddydd Mercher, 15fed o Fehefin yng ngofal ei weinidog y Parch Goronwy Evans a dalodd deyrnged hyfryd iddo ac yn ystod y gwasanaeth hefyd talwyd teyrnged ddiffuant arall iddo gan Steven, sef un o'i wyrion ifanc.

Roedd festri Brondeifi yn orlawn i noson lansio llyfr diweddar Alan Leech, sef hanes a bywyd Dan Jenkins. Disgynnwyd o deulu Trecefel, Tregaron oedd Dan Jenkins a oedd yn wr arloesol ac mae iddo hanes diddorol iawn ac ymhlith pentrefi eraill bu yn brifathro ysgol Llanyrcwys. Tra yno mynnodd fod y disgyblion yn cael diwrnod o wyliau ar Fawrth y cyntaf a chynnal cyngerdd yn yr hwyr gan ddefnyddio cerddi a ddanfoniwyd iddo gan feirdd enwog. Canlyniad hyn fu i'r cerddi gael eu cyhoeddi yn y gyfrol werthfawr Cerddi Llanyrcwys.

Daeth nifer iawn o lwyddiannau i'r ardal ac i aelodau â chysylltiadau'r capel yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe eleni a llongyferchir pawb yn fawr ar eu llwyddiant.

Gan gymryd i ystyriaeth y trai sy'n effeithio pob enwad grefyddol y dyddiau yma, penderfynodd y Gweinidog a Swyddogion Brondeifi gymryd camau arloesol i geisio delio â'r sefyllfa cyn ei bod yn rhy hwyr. Danfonwyd llythyr at bob aelod gan rannu'r aelodaeth i ddeunaw grŵp. Dyletswydd pob grŵp fydd dewis un person o'u plith i'w cynrychioli fel stiward am 4 mlynedd gyda'r dyletswydd yn cael ei basio ymlaen i aelod arall o'r grŵp ar ddiwedd y cyfnod. Gobeithir y bydd yr enwau i law ymhen rhai wythnosau.

Yn ystod y mis cafwyd gwasanaethau amrywiol gan ein Gweinidog, gwasanaeth wedi ei gydlyn gyda'r gweinidog ond yr aelodau yn cyflwyno a hefyd gwasanaeth gan blant yr Ysgol Sul o dan hyfforddiant Heini Thomas a Steffanie Davies. Thema eu gwasanaeth oedd 'Fflam' a thrwy

Llanbedr Pont Steffan

gyfrwng cerdd a chân cyflwynodd pawb eu gwaith â graen. Yn ogystal cafwyd cyfle i weld talentau ychwanegol y plant sef - chwarae'r piano; tactegau rygbi a champau gymnasteg a'r plant a'r gynulleudfa wrth eu boddau. Yn cymryd rhan bu:- Bryn, Daniel, Dafydd, Undeg, Llyr, Sion, Elen, Gruffydd, Martha, Elin, Hanna, Megan, Marged a Rhys.

Yn ogystal â gwasanaeth y plant yn addas iawn bu cyflwyno Deina Harrihy, sef merch fach Dyfed a Meinir Evans, Rhydfechan a braf oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn o deulu a ffrindiau i dystio i'r achlysur hapus yma

O fewn cylch o bob ryw saith mlynedd mae Brondeifi yn gyrchfan i elusen Mencap i gynnal eu gwasanaeth blynyddol ac mae'n fraint a phleser o gael y cyfle yma i'w croesawi i'n plith. Maent yn ymweld â ni eleni ar y Sul olaf o Fehefin pryd y bydd Meinir Evans, Rhydfechan yn rhoi annerchiad iddynt ac yn dilyn bydd aelodau'r capel yn paratoi te ar eu cyfer.

Ceir manylion y gwasanaethau yma yn y Negesydd a hefyd maent yn ymddangos yn Siop y Smotyn Du.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Tomos Jones, Glenydd, Stryd Newydd am basio 'Step 2' ar y piano gydag anrhydedd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Lizzie Douglas, Bryn Rhosyn, Barley Mow am basio Gradd 5 ar y piano.

Diolch

Dymuna Eirene Jones, 16 Lewis St, Church Village, Pontypridd, (gynt Station Terrace, Llambled), ddiolch am y cardiau, llythyron a'r galwadau ffôn dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen blwydd yn 90 oed.

Gwibdaith Flynyddol 2011 Capel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan

Uchafbwynt Calendr Mehefin i nifer ohonom yn Llanbedr a'r Cylch yw'r wibdaith flynyddol, dan ofal trefnus Twynog a Hazel Davies. Hon oedd y deunawfed daith ganddynt ac ardaloedd Aberhonddu a Henffordd fu'r atyniadau eleni.

Bysiau G ac M oedd y cludwyr, dan ofal medrus a gofalus Granville. Cawsom ein rhyfeddu sut y llwyddodd i lywio'r bws ar hyd rhai lonydd culion, yn arbennig y lôn yn arwain at Eglwys Bredwardine! Gadawsom Gapel Shiloh yn brydlon am 8.30 i

gyfeiriad Llanyddu yfri ac ymlaen i Aberhonddu. Diflas oedd y tywydd ond hawdd anwybyddu'r glaw ynghanol yr holl sgwrsio a'r ymddiddan ar y bws. Braf oedd cael

cwmni newydd ar y daith, ac ymddeoliadau rhai yn eu galluogi i ymuno â'r fintai lon am y tro cyntaf. Yr oedd blychau hefyd yn ein plith, yn arbennig cwmni rhadlon Hazel na allai ymuno â ni y tro yma. Buan 'roeddem yn Aberhonddu a Choleg Crist, ymweliad cyntaf y daith. Mrs Anne Lang, Llyfrgellydd ac Archifydd Coleg Crist wnaeth ein croesawu, ac wedi paned derbyniol iawn, ein tywys i weld gogoniannau Capel y Coleg.

Dyma Gapel Sant Nicholas, yn perthyn i'r traddodiad Dominicaidd o'r cyfnod pan 'roedd y safle yn abaty. Mae'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg ond ychydig o'r olion canoloesol sydd i'w gweld heddiw yn dilyn gwaith adfer Gilbert Scott yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cawsom hanes rhai o ryfeddodau unigryw'r capel, megis y groes yn dyddio o'r Rhyfel Byd Cyntaf, a'r rhan sydd gan y capel heddiw ym mywyd yr ysgol. Y mae gan gerddoriaeth rhan allweddol ym mywyd y capel, a'r ysgol yn falch o'r 9 côr sydd ganddi ymhlith y 350

o ddisgyblion. Rhaid bu ffarwelio â Choleg Crist os oeddem am gadw at amserlen Twynog a chael ymweld ag Eglwys Sant Andrew, Bredwardine cyn cinio.

Dyma eglwys hynafol a rhyfeddol ar safle hyfryd uwchlaw Afon Gwy, a Mrs June Blanford yno i'n croesawu. John Philips oedd yn ein harwain y tro hwn wrth adrodd peth o'i hanes, sy'n dyddio'n ôl i gyfnod William y Concwerwr. Cyfeiriodd at ei

chysylltiadau enwog â'r dyddiadurwr y Parch. Francis Kilvert, gan ddyfynnu rhannau o'i dyddiaduron rhyfeddol. Dim ond tri o'i ddyddiaduron sydd mewn bodolaeth heddiw - llosgwyd y gweddill gan ei weddw - ac maent i'w gweld ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Aeth â ni wedyn i ymweld â charreg fedd Kilvert ym mynwent yr eglwys cyn i ni ddychwelyd at y bws, yn barod am ein brechdanau a phaned.

Yr oedd Granville yn barod wedi troi'r bws fel y gallwn gychwyn yn syth am Henffordd a chael ein cyfareddu eto gan ei chadeirlan hynod.

Owen Jones gymerodd gyfle ar y bws i roddi i ni beth o hanes Cadeirlan Henffordd.

Hon yw 'The Cathedral Church of St. Mary the Virgin and St. Ethelbert the King' sy'n dyddio'n ôl i'r wythfed ganrif. Adeiladau 'Romanesque' Normanaidd sydd i'w gweld fwyaf heddiw gydag un tŵr anferth ble arferai fod dau. Syrthiodd ochr a thŵr

gorllewinol y Gadeirlan yn annisgwyl ar Lun Y Pasg 1786, ac ni ail adeiladwyd y tŵr adeg adfer yr ochr gorllewinol rhwng 1788 a 1795. Cyfeiriodd at y rhyfeddodau

unigryw sydd o fewn ei muriau megis y Mappa Mundi, y Llyfrgell Gadwynog a Chadair St. Stephen. Yr oedd digon i'n cadw'n brysur felly gweddill y prynhawn yn y

Gadeirlan. Bu rhai a'r ymweliad â phen ei thŵr (218 o risiau) a chael golygfeydd godidog yn yr heulwen o Henffordd a'r cylch, tra aeth eraill i weld y Mappa Mundi hanesyddol a'r Llyfrgell Gadwynog unigryw. Bu eraill ar daith tywys oddi amgylch y

Gadeirlan a rhaid oedd cael cyfle i wneud peth siopa cyn ymadael â Henffordd! Dychwelyd wedyn i Aberhonddu am swper blasus yng Ngwesty'r Castell a threfniadau Twynog a Hazel unwaith eto yn ardderchog, a'r wled yn ddiweddglo perffaith i ddiwrnod bythgofiadwy. Bu cyfle i ddymuno pen-blwydd hapus i Caradog ac 'roedd diolchiadau twym galon Mair Lewis am ddiwrnod mor arbennig yn cyfleu teimladau pawb ohonom. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at ddiwrnod mor bleserus, ac yn arbennig i Twynog a Hazel wnaeth unwaith eto drefnu gwibdaith ragorol.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,
cwrlo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol a
Diwrnod gostyniad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmman
ond yn barod i deithio'r ardal.

W.D. Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Masachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Cefn-hafod

Gorsgoch
☎ 01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNYR LLAWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan

I'w chynnal – Caeau Pontfaen

Dydd Gwener, 12 Awst 2011

Llywydd – Mr. Chris Saunders, L.A.S. Lampeter

Mynediad: Oedolion - £6.00, Plant dan 14 - £1.00

Dosbarthiadau – Gwartheg, Defaid, Ceffylau, Geifr, Moch a Sioe Gŵn

Dyddiad cau derbyn manylion yr Adran Geffylau – Gorffennaf 24, 2011

Cynnyrch fferm, cynnyrch gardd, blodau, coginio a gwin
Gwaith llaw, Crefftau gwlad, Ffotograffiaeth, Plant a C. Ff. I
Arddangosfa hen beiriannau fferm a gwaith crefft

Rygbi 7 bob ochr yn dilyn y sioe

Dawns yn y Babell i gloi'r gweithgareddau

Manylion wrth: Mrs. Gwen Davies, Llys Aeron, Llanwnnen –
Ffon: 01570 481152

Mr. Gareth Russell, Coedeiddig Fawr, Llambled – Ffon:
01570 423396

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
**3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156**

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Tref Llambled

Maer: Hag Harris; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd
Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor
Williams.

Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Mai 2011 yn Neuadd yr
Eglwys, Llambledr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan
y Maer. Offrymwyd gweddi gan Margaret Davies-
Evans. Estynwyd cydymdeimlad â'r Clerc ar ei cholled
diweddar.

Cafwyd cyflwyniad gan Rachel Evans sy'n swyddog
prosiect gyda Help4Carers a ariennir gan Gronfa Fawr y
Loteri. Mae'r cynllun yn gallu cynnig help gyda gwaith
garddio, trafniadaeth a gwaith tŷ i bobl gymwys yn ardal
Llambled.

Roedd yr ail gyflwyniad gan ddau o brif swyddogion
Prifysgol y Drindod Dewi Sant - Meri Huws, Dirprwy
Is-ganghellor a'r Athro Denzil Morgan, Profost. Nodwyd
bod y Brifysgol wedi colli 40 o staff ar draws y ddau
gampws (Caerfyrddin a Llambled) yn sgil toriadau o
35% gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch. Nodwyd
bod niferoedd y myfyrwyr yn cynyddu a'r disgwyl yw
y byddai 1,400 yn astudio yn y sefydliad erbyn Medi
2011. Croesawyd y cynnig i gwrdd â Chyngor y Dref
bob chwe mis i drafod datblygiadau. Manylwyd ar
datblygiadau megis gwella adnoddau trwy adnewyddu
adeiladau ar y campws, sefydlu Canolfan Llais ac
agor Sefydliad Iechyd Gwledig a Gofal Cymdeithasol.
Trafodwyd dyfodol Cae'r Brifysgol ar Heol Pontfaen ac
awgrymwyd gwahodd Cennydd Powell, Cyfarwyddwr
Ystadau Campws Llambledr Pont Steffan i annerch y
Cyngor ar y pwnc hwnnw.

Plismona Bu gwelliant o ran gollwng sbwriel
ar Sgwâr Harford. Roedd amryw gerbydau'n peri
tramgwydd ar Ffordd y Porthmyn a baw cŵn yn amlwg
yn Stryd y Coleg. Nodwyd na fyddai'r goleuadau
Nadolig yn cael eu tynnu eleni; caent eu tynnu, yn
hytrach, ar ôl dathliadau'r Nadolig. Cofnodwyd lladrad a
ffrwgwd yng nghyffiniau'r Coleg.

Trefniadau Etholiadaol Nodwyd y byddai dau
cynghorydd yn cynrychioli Ward Llambled yn yr etholiad
nesaf i'r Cyngor Sir.

Goleuo'r strydoedd Roedd un o drigolion Maesyderi
wedi gofyn am oleuo'r stad rhwng 12-5.00am ac am
osod camera cylch cyfyng i geisio lleihau gweithredu
gwrth-gymdeithasol. Penderfynwyd y byddai'r maer yn
ymateb trwy lythyr.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Bill Green; Clerc: Gwennan Davies;
Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Yng nghyfarfod mis Mai etholwyd y Cyng. Bill
Green yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned a'r Cyng.
Geraint Hatcher yn Is-gadeirydd. Hoffai'r cynghorwyr
ddiolch o galon i'r Cyng. Mary Thomas am ei gwaith fel
Cadeirydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cynhaliwyd cwrdd i ddathlu pen-blwydd y Lleng
Brydeinig yn 90 oed yn Eglwys y Plwyf ar y 12fed o
Fehefin.

Mi fydd Dŵr Cymru yn diffodd y Plwmp ddŵr ger
Capel Alltbylacca, gan nad yw'n cael ei ddefnyddio
bellach.

Daeth llythyr oddi wrth RAY Ceredigion yn cynnig
hyd at £5,000 i gaeau chwarae cymunedol – cysylltwch
â'r Clerc am ragor o wybodaeth. O hyn allan mi fydd
rhaid cofrestru gyda'r Cyngor Cymuned os bydd unrhyw
ddigwyddiad yn cael ei gynnal ar y briffordd gyhoeddus.

Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: Chris Evans; Clerc: Eirian Williams;
Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cynhaliwyd y cyfarfod Nos Fawrth 21 Mehefin 2011
yng Ngwesty'r Grannell.

Wedi i'r Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod,
derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.
Cyfetholwyd aelod newydd i lenwi'r sedd wag ar y
Cyngor sef Miss Elin Thomas, 1 Sycamore Terrace.

Trafodwyd nifer o faterion gohebiaeth, ceisiadau am
gymorth ariannol a sawl cais cynllunio.

Nodwyd fod yr archwiliwr mewnol wedi archwilio'r
cyfrifon ac arwyddo'r Ffurflen Flynyddol am y flwyddyn
2010-2011, ac fe'i derbyniwyd gan yr aelodau.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 26 Gorffennaf
2011.

Diolch yn fawr iawn i:

Cyngor Tref Llambledr Pont Steffan - £100; Cyngor Cymuned Llanwenog - £100 a
Chyngor Cymuned Llanwnnen - £100 am eu cefnogaeth ariannol tuag at goffrau cynhyrchu
Papur Bro CLONC. Gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

I orffen y tymor, bu nifer dda o'r aelodau yn ymweld
â Gerddi Llanllŷr ar yr 21ain o fis Mehefin, - hyn yn
ddilyniant i'r hanes a gaed gan Mrs. Loveday Lewes
Gee yng nghyfarfod mis Chwefror.

Croesawyd pawb yno gan Selwyn Walters y
Cadeirydd, a chan Loveday Lewes Gee, a hi fu'n tywys
yr aelodau o gwmpas y gerddi, gan esbonio datblygiad
y gerddi ac fel yr oedd hi a'i gŵr wedi bod wrthi'n
ail-greu'r rhan helaeth ohonynt. Enillwyd gwobr
'Garddio S4C' ganddynt tua phedair blynedd yn ôl, a
defnyddiwyd y wobwr honno i greu llawr arbennig ger yr
ardd Eidalaidd.

Diolchwyd yn gynnes i'r teulu am eu croeso a'r
lluniaeth gan y Cadeirydd, ac i Penny David am drefnu'r
ymweliad arbennig yma.

Anrhydeddu Gwirfoddolwraig

Eleni mae elusen 'Tenovus' yn dangos ei
gwerthfawrogiad am waith nifer o'i gwirfoddolwyr drwy
anrhydeddu chwech ohonynt mewn gwahanol gategorïau

fel 'Gwirfoddolwr y flwyddyn'.

Enillydd y wobwr am 'Ysbrydoliaeth' yw Mrs Phyllis



Morrison, sy'n
gweithio yn siop
Tenovus yn Llambled.
Mae Phyllis yn 90
oed, ac yn teithio
o'i chartref yn
Llanddewi-brefi i
wirfoddoli bob
dydd Sadwrn; mae
ei dyfalbarhad
a'i brwdfrydedd
yn ysbrydoli ei
chydweithwyr, ac

maent i gyd yn falch iawn fod yr anrhydedd yma wedi
dod i'w rhan.

Cynhelir diwrnod arbennig yng Nghastell Caerdydd
ar y 7fed o Orffennaf, pan fydd Phyllis yn ymuno â'r
gwirfoddolwyr eraill yn y dathlu, a bydd un ohonynt yn
cael ei dewis yn Ben-gwirfoddolwr.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Tudur Jones
Oed: 28
Pentref: Pont Creuddyn
Gwaith: Ymgymherwr Trydanol
Teulu: Dau frawd Llyr ac Eilir

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Parchu pobl hŷn.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar nos Sadwrn mas 'da ffrindie neu ar gefn y beic modur ar ddiwrnod braf.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg, methu siarad Saesneg yn deidi!

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol tynn (Dan James).

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Nos Sadwrn.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Nos Sadwrn.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Nos Sadwrn.

Unrhyw ofergoelion?
Cyfarch piod, a pheidio cerdded o dan ysgolion.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Rhedeg fy musnes fy hunan.



Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Beth chi 'di clywed?!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Range Rover Sport a horsebox.

Beth yw dy hoff air?
Good ychan.

A'th hoff adeilad?
Inn on the Pier 5.30 bore dydd Sul!!!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese.

Beth yw dy ddiod arferol?
Admirals, ond dyn nhw ddim yn cael yr un effaith arna i a ma'n nhw'n cael ar Rhys Barrells! 3 and 0!

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Professional Electrician. I weld a

ddysga i rywbeth.

Beth yw dy hoff arogl?
Arain parod!!!

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
youtube

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
Our War, Isle of Man TT a Pobol y Cwm.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Red Bull.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Rheolwr Banc.

Y gwyliau gorau?
Taith Pêl-droed Felinfach i Blackpool 2010! Oedd hi off 'na!!

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
America, Awstralia a Thailand.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Proffwydo rhifau'r loteri.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Pwy sydd i wybod?

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Meryl Jenkins, Llambled

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocys yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		7		5	3		
5			9			7	4
	8				1		
			6				8
	7	3	1		9		
3			7				
		9				2	
8	3			2			5
		5	4		6		

Atebion Swdocw mis Mehefin:

Llongyfarchiadau i:
Eirlys Thomas,
Awelfa,
Llanybydder.

7	8	5	6	9	1	4	2	3
4	1	6	3	2	5	8	9	7
2	3	9	8	7	4	5	1	6
9	2	3	1	6	8	7	5	4
8	5	4	7	3	9	1	6	2
6	7	1	5	4	2	9	3	8
1	9	7	2	8	6	3	4	5
5	6	8	4	1	3	2	7	9
3	4	2	9	5	7	6	8	1

Tesco yn Cynnig Diwrnod i'r Urdd

Eleni roedd Tesco wedi dynodi dydd Sadwrn, 25 Mehefin 2011 yn Ddiwrnod Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Cynigiodd Tesco un siop yn mhob rhanbarth yr Urdd i'r mudiad ieuenctid, gyda'r cyfle i wirfoddolwyr lleol gasglu arian wrth bacio bagiau yn y pwyntiau talu.

Roedd wyth o siopau ledled Cymru yn cymryd rhan dydd Sadwrn diwethaf, gan gynnwys archfarchnad Aberteifi. Bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau'r Urdd yn lleol, a rhoddodd 65 o wirfoddolwyr o Adran Penparc, Adran Llanfihangel ar Arth, Fforwm Ieuenctid Urdd Ceredigion, Ysgol Gynradd Gymunedol Aberteifi a Phwyllgor Rhanbarth Ceredigion eu hamser prin i gasglu arian, o 9yb tan 5yh. [Gweler llun o Adran Llanfihangel ar Arth].

Yn ôl Anwen Eleri, Swyddog Datblygu Ceredigion, "Roedd yn ddiwrnod gwych, a hoffwn ddiolch i holl staff Tesco am eu croeso a'u cydweithrediad a'r gwirfoddolwyr am eu hamser – ni fyddai wedi bod yn bosibl hebddynt. Gwnaeth Mistar Urdd ei ran hefyd, yn helpu i bacio'r bagiau a chadw pawb yn eu hwyliau! Llwyddwyd i godi **£891.41** a fydd yn cael ei ddefnyddio i drefnu digwyddiadau i blant a phobl ifanc yng Ngheredigion."

Y siopau Tesco a gymrodd ran oedd siopau Aberteifi, Porthmadog, Bangor, Hwlfordd, Tonysguboriau, Mynachlog Nedd, Caerfyrddin a Chasnewydd.



Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan



Ffynnonbedr

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol a diolch i Mr John a Mr Roderick am drefnu. Bu disgyblion yr ysgol yn mwynhau gwneud amryw weithgareddau megis rhedeg, sgipio, gwneud ras rhwystrau, ras gyfnewid, taflu pêl, naid hir. Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd tîm Pedr ddaeth i'r brig a derbyniodd y capteiniaid Tanwen a Thomas darian oddi-wrth Maer y dref sef y Cynghorydd Hag Harris. Cipiodd Tanwen Owens a Tom Sawyer dariannau am fabolgampwraig a mabolgampwr y flwyddyn a diolch i Gwawr, Steffan ac Elen Lewis am gyflwyno'r tariannau hynny i'r ysgol.

Cafwyd llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Cipiodd Charlotte Saunders y wobwr gyntaf am yr unawd blwyddyn 5 a 6 a'r ail wobwr am ddawnsio disgo'n unigol. Yn ogystal cafodd y grŵp cyfrwng cymysg yr ail wobwr. Gwnaeth y grŵp dawnsio disgo yn dda iawn hefyd yn y rhagbrawf. Llongyfarchiadau i bawb a diolch i Sally am hyfforddi ac i bawb a fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd.

Bu pedwar aelod o staff allan yn Iwerddon yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod ag athrawon o wledydd Sbaen, Eidal, Awstria, Ffrainc ac Iwerddon. Cafwyd nifer o gyfarfodydd yn trafod dulliau dysgu ac yn dysgu am draddodiadau'r gwahanol wledydd. Bydd athrawon o'r gwledydd yma yn ymweld â ni fel ysgol yn mis Hydref ac edrychwn ymlaen at gael eu croesawu.

Cafodd disgyblion blwyddyn 4 gyfle i ymarfer ei sgiliau criced yn ddiweddar a disgyblion blynyddoedd 3, 4 a 5 wedi bod yn ymarfer sgiliau pêl-droed a rygbi dan gyfarwyddyd sgiliau Cymru.

Bu disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 yn gwneud Gwyddoniaeth yn y sector Uwchradd gyda Miss Mattie Evans a mwynhau'r profiad o gael gweithio mewn labordy.

Croeso nôl i Nia Morgan, Nia Costello a Rhiannon Lewis ar ôl cyfnod mamolaeth a diolch i Nia Tomos a Rachel Roberts am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r ysgol.

Treuliodd disgyblion blwyddyn 6 wythnos yng nghanolfan breswyl Pentwyn a diolch o galon i'r staff a fu mor barod i roi o'u hamser i ofalu amdanynt yno.

Bu rai o ddisgyblion blwyddyn 5 yn gweithio ar gywaith animeiddio

sef "Anturiaethau'r Alarch Arbennig" gyda Helen Duffy.

Yr Ysgol Gyfun

Llongyfarchiadau gwresog i'r chwe disgybl sydd wedi cael eu hethol yn brif swyddogion ar gyfer 2011-2012. Daniel Edwardes a Carwen Richards yw'r Prif Fachgen a'r Brif Ferch ac Adam King, John Janes, Lisa Thomas a Ruth Davies yw'r dirprwyon.

Ar ddydd Llun y 24ain a dydd Mawrth y 25ain o Fai, cymerodd criw o ddisgyblion blwyddyn 7 rhan yn y rhaglen deledu 'Stwnsh ar y Ffordd'. Bwriad y gêm oedd ennill y mwyafrif o bwyntiau drwy gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, gan gynnwys dyfalu oedran y seleb, llyfu cwstard siocled oddi ar y bwrdd, a gwneud ras rhwystrau wrth wisgo wellingtons yn llawn dŵr. Bu cystadlu brwd rhwng tîm y bechgyn, sef Morgan Lewis, Teon Rees, Dion Davies, Alwyn Evans, Aled Hughes a Kai Mansfield, a thîm y merched, sef Jess Davies, Elan Lewis, Caryl Jacob, Rhiannon Davies, Catrin Davies a Lleucu Ifans. Rhaid diolch i Carwen Richards a Kyle Collins-Ward o'r chweched dosbarth am gytuno i fod yn fasnogs i'r timau hefyd. Tîm y bechgyn enillodd â 750 o bwyntiau a olygai, yn anffodus i Carwen, fod masgot y merched yn cael llond wyneb o 'Stwnsh'.

Bu'r Adran Gerdd yn y New Theatre yn ddiweddar yn gwerthfawrogi perfformiad penigamp o'r sioe gerdd "Jungle Book". Roedd y sioe yn arbennig ac fe fwynhaodd pawb yn fawr iawn.

Bu disgyblion Blwyddyn 12 yn brysur iawn rhwng 21 a 25 Mehefin yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cyfoethogi'r



Yn ddiweddar, mae disgyblion o flwyddyn 8 wedi creu llyfrau ar gyfer disgyblion blwyddyn 1 a 2, gan ysgrifennu ar gyfer pwrpas a chynulleidfia arbennig. Cyn gwyliau'r Pasg, bu'r disgyblion draw yn Ysgol Gynradd Ffynnonbedr, yn darllen eu straeon i bedwar o ddosbarthiadau blwyddyn 1 a 2. Cafwyd llawer o hwyl a'r disgyblion o bob oedran yn ymateb yn ffafriol a hwyliog. Diolch am y croeso.



Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol sydd wedi ennill y gystadleuaeth 'Her Mathemateg Prifysgol Aberystwyth'; Daniel Sandomierski, Finn Humphrey, Charlie Roper, Myfanwy Studman, Christopher Barker a Joshua Yardy. (Yn anffodus, roedd Christopher Barker yn absennol yn ystod y seremoni wobrwyo.) Ar ôl y gwaith caled a'r cystadlu brwd yn erbyn ysgolion eraill Canolbarth Cymru, cafodd y disgyblion eu gwahodd i'r brifysgol yn Aberystwyth er mwyn derbyn eu gwobrau. Cafodd pob un ohonynt fedal a thocyn i'w wario ar ddeunydd o Amazon. Cafodd pawb ddiwrnod pleserus iawn, buffet bendigedig ac roedd hyd yn oed cyfle i ddatrys rhai posau yn ystod y dydd.



Bu nifer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth ddarllen nodedig, 'Readathon' yn ddiweddar, ac fe godwyd dros £150. Y mae'r arian a godwyd yn cael ei ddefnyddio i helpu plant a phobl ifanc sydd yn dioddef o ganser, clefyd Hodgkin, lewcemia, epilepsi, clefyd gwaed, anafiadau i'r ymennydd, a salwch niwro-dirywiol. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan yn y digwyddiad, ond yn arbennig i Daniel Simmonds a Juliana Barker am godi £50.

Cwricwlwm. Prif fwrriad yr wythnos yma oedd rhoi'r cyfle i'r myfyrwyr i

ddechrau paratoi'r ffordd ar gyfer eu bywydau wedi iddynt adael yr ysgol.

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Bu nifer wrthi yn dechrau llanw'r ffurflenni UCAS (ffurflen gais ar gyfer cyrsiau Prifysgol) a'n derbyn cyngor wrth siaradwyr gwadd, y Cydlynnydd Galwedigaethol a Phennaeth y Chweched o ran sut mae cwblhau cais da. Roedd yna gyfle hefyd i dderbyn cyngor ynglŷn ag opsiynau eraill trwy siarad gydag arbenigwr gyrfaoedd a bu'r cyn-ddisgyblion Shawn Brown, Russell Pink a Martin Theodorou yn rhannu eu profiadau nhw o gael blwyddyn mas a chwblhau cynllun cyffrous yn Ghana. Yn ystod yr wythnos yma, cafodd Blwyddyn 12 y cyfle i ymweld â Chaerdydd (Y Cynulliad a Chanolfan Y Mileniwm) ac roedd yna ymweliad â Phrifysgol Aberystwyth, yn ogystal, er mwyn cael blas o fywyd myfyrwyr 'y coleg ger y lli'!

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd dros wyliau'r hanner tymor. Dyma'r canlyniadau :- Grŵp Llefaru Bl. 7-9 (dysgwyr) - 3ydd, Cyflwyniad Digri 14-25 oed -Rhodri Pugh-Davies 2il, Unawd allan o Sioe Gerdd Bl. 10 ac o dan 19 oed - Elliw Dafydd 3ydd (Aelwyd), Grŵp Llefaru (Adran) Bl. 9 ac iau - Aelwyd Llanbedr Pont Steffan 1af, Parti Cerdd Dant dan 19 oed (Adran / Aelwyd) - Aelwyd Llanbedr Pont Steffan 3ydd. Diolch i'r staff, rhieni a disgyblion am eu cefnogaeth ond yn arbennig i Mrs Gillian Hearne, Mrs Delyth Hopkin Evans, Mrs Heledd James, Mrs Lena Daniel, Miss Mattie Evans, Miss Hedydd Jones, Miss Cerian Phillips, Mr Gethin Page, a Miss Sally Saunders am eu gwaith caled yn hyfforddi'r disgyblion.

Yn dilyn eu llwyddiant yn rowndiau rhagbrofol Cogurdd, sef cystadleuaeth goginio Eisteddfod yr Urdd, bu Elinor Jones 10P a Kate Jones 9N yn cystadlu yn y rownd derfynol a gynhaliwyd ar Fws Coginio Llywodraeth Cymru ar faes yr eisteddfod yn Abertawe. Cafwyd 1½ awr i goginio a dyma'r ryseitiau i grŵp oedran Kate: Byrgys blasus gydag iogwrt mint, Salad salsa sbeislyd. Ryseitiau'r gystadleuaeth i grŵp oedran Elinor oedd: Cawl pys mintys, Cacennau sawrus Cymreig, Pryd tro-ffrio tsili gyda chig oen Cymreig. Er nad oeddent yn llwyddiannus ar y diwrnod, fe

wnaeth y ddwy fwynhau'r profiad yn fawr iawn. Fe gawsant hefyd nifer o 'tips' coginio gan y beirniad, sef Dudley Newbery!

Bu nifer o ddisgyblion yn llwyddiannus hefyd eleni yn y cystadlaethau Celf a Chrefft yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma'r canlyniadau :- Creu Gwefan Bl. 7-9 - Morgan Lewis 2il, Cywaith 3D - Grŵp Michael Hancock (dan 25oed) 1af, Cywaith 3D - Grŵp Catrin (Canolfan y Bont) (dan 25) 3ydd, Cywaith 2D - Grŵp Llanbed (Canolfan y Bont) (dan 25 oed) 2il, Cywaith 2D - Grŵp Llanbed (Canolfan y Bont) (dan 25 oed) 1af, (Dysgwyr) - CAD/CAM (Bl. 7,8,9) - Gwennan Holt 1af, CAD (Bl. 12 ac o dan 19 oed) - Lowri Pugh Davies 1af.

Ar ddydd Mercher 8fed o Fehefin bu 52 o ddisgyblion blwyddyn 9 ar daith i Ffrainc a Gwlad Belg gyda'r adran Hanes i ymweld â ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd y disgyblion brofiadau gwych yn ymweld â thirnodau arbennig, gan gynnwys traeth Dunkirk, bedd Hedd Wyn, cofebion amrywiol a miloedd ar filoedd o gerrig beddau. Roedd y daith yn sicr yn un fythgofiadwy.

Newyddion yr Uned Sgiliau Bywyd - Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur tu hwnt yn tyfu llysiau yng ngardd yr Uned, ac erbyn hyn mae'r gwelyau llysiau yn orlawn! Ar Ebrill 12fed bu Steffan Davies a Joseph Boswell yn cynllunio a choginio pryd o fwyd i Emyr y Gofalwr a Mrs Bethan Payne. Cafwyd gwledd i'r brenin - lasagne i ginio a phwddin siocled i ddilyn.

Llongyfarchiadau i grŵp Celf Mrs Harding o Ganolfan y Bont. Dyma'r canlyniadau:- Enillodd y bêl sensori yr ail wobwr yn yr Eisteddfod Sir. Enillodd y 'Cwpan Te' y wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod Sir a'r drydedd wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe dros hanner tymor. Enillwyd y wobwr gyntaf am 'Gwanwyn' yn y gystadleuaeth Cywaith 2D yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Bu'r rhaglen deledu 'Byw yn yr Ardd' yn ymweld â'r ysgol yn ddiweddar i ffilmio yn yr ardd synhwyrdd yn Nghanolfan y Bont. Cafodd y rhaglen ei darlledu ar Fehefin 15fed ar S4C.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n

cystadlu yn athletau'r Sir. Bu nifer o'n disgyblion yn llwyddiannus iawn. Dyma'r canlyniadau :-

100m: Bl. 7 - Paloma Kalydy (2il) Bl. 8 - Elliott Daly (1af) a Naomi Chalder (3ydd) Bl. 9- Dorian Davies (2il) a Carys Baker (2il) 200m: Bl. 8 - Szymon Parcheta (2il) Bl. 9 - Cory Lloyd (1af) a Carys Baker (1af) Bl. 10/11- Daniel Garside (3ydd) a Tracey Ritchie (3ydd) 300m: Bl. 10/11 - Rhian Jones (2il) 400m: Bl. 8 - Elliott Daly (1af) 800m: Bl. 8 - Sion Phillips (2il) a Ffion Quan (1af) Bl. 10/11 - Rhys Douglas (3ydd) 1500m: Bl. 8 - Caitlin Page (1af) Bl. 10/11 - Rhian Jones (2il) Clwydi: Bl. 8 - Rhys Jones (2il) Bl. 9 - Sasha Lloyd-Bennett (3ydd) Bl. 10/11 - Steffan Roberts (2il) a Donna Geddes (3ydd) Naid Uchel: Bl. 9 - Rhian Evans (1af) Bl. 10/11 - Donna Geddes (2il) Naid Hir: Bl. 8 - Arwel Jones (1af) a Caitlin Page (3ydd) Bl. 9 - Rhian Evans (2il) Bl. 10/11- Steffan Thomas (2il) a Kate Merrow-Smith (3ydd) Naid Driphlyg: Bl. 10/11 - Steffan Thomas (3ydd) Pwysau: Bl. 7 - Cenk Killic (2il) a Aarifah Lala (2il) Gwaywffon: Bl. 7 - Red Gale (1af) Disgen: Bl. 8 - Beth Davies (3ydd).

Erbyn hyn, mae pob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch

wedi ymweld â'r ysgol fawr i gael rhagflas o fywyd yr ysgol, gan fynychu nifer o wersi gwahanol. Gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu nôl i'r ysgol gyda'ch rhieni cyn diwedd y tymor, ac i'n plith yn swyddogol ym mis Medi.

Ar ddydd Mawrth Mehefin 14eg, am 7yh cynhaliwyd 'Passing Out Parade' i'r grŵp presennol sy'n ymarfer i fod yn ddi-foddwyr tân ifanc yng Ngorsaf tân Llamedd. Bu chwech o ddisgyblion blwyddyn 10 yn ymarfer yn drylwyr ym meysydd diogelwch tân, cymorth cyntaf a driliau sylfaenol ynghylch yr ysgol a'r bibell ddŵr, yn ystod sesiynau awr ers mis Chwefror. Fel rhan o'r cwrs bydd y disgyblion yn ymweld â'r Ambiwylans Awyr yn Abertawe yn y dyfodol agos hefyd.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd yn ystod y cwrs: Kymberley Mills, Naomi Howson, Julia Szweczek, Kayleigh Moore, Claire Ruysch a Macolley McMullan. Hoffai'r disgyblion diolch i Simon Barker, Hyfforddwr Y.F.F, a'i dîm am eu gwaith caled dros y misoedd diwethaf, fe wnaeth pawb fwynhau eu profiadau yn fawr iawn.




nant gwrtheyrn
www.nantgwrtheyrn.org

4 noson am bris 3 yn ein bythynnod
4★ hunan-arlwyio!

Sh!... Peidiwch â son wrth bawb... Ond mae hon yn gynnig
arbennig canol wythnos ar gael yn Nant Gwrtheyrn!

Dewch i ddyffryn hudolus, godidog mewn ardal o harddwch
naturiol eithriadol. Manteisiwch ar y cyfle! (cyfeirnod MS01).



Ffôn: 01758 750334 • Epost: post@nantgwrtheyrn.org
Llithfaen • Pwllheli • Gwynedd LL53 6NL



Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
Iwry Gronia Dreitdaeth y Loteri



Os hoffech gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i chi
gysylltu ag un o'r bwrdd
busnes.

Nid yw'r golygydd o
reidrwydd yn cytuno
â'r farn a adlewyrchir
yn mhob un o
erthyglau CLONC.

Llangybi a Betws

Llongyfarchiadau

Bu nifer o blant yr ardal yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau i Rhodri a Lowri Pugh-Davies; Zoe Jones a Bradley Rowlands ac i'r grŵp dawnsio gwerin.

Hamdden

Ar ddiwrnod braf o haf fe aed ar wibdaith i Bortmeirion ar Fehefin 3ydd. Gwelsom olygfeydd godidog tra'n teithio i'r gogledd ac roedd Portmeirion yn ymddangos ar ei orau. Lle tawel a golygfeydd hyfryd a'r adeiladau pensaernïol arbennig. Roedd yna ddigon o seddau i orffwys ac i edmygu y gwaith campus sydd wedi ei gyflawni yma ers blyneddau. Cafwyd swper blasus yn Llety Ceiro a phawb wedi mwynhau eu huanin. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r trefnwyr gan Olwen Green. Enillwyd gwobrau raffl gan nifer o bobl. Mae angen enwau er mwyn gwneud rhaglen ar gyfer y tymor nesaf ar yr ysgrifenyddes yn fuan.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ddydd Gwener, 7fed o Hydref.

Cyndeithas Maesyffynnon

Cynhelir Cyngerdd Blyneddol Maesyffynnon ar nos Sul, Gorffennaf 10fed am 7:30y.h. Yr artistiaid fydd Côr Glannau Ystwyth a'r gadeiryddes yw Miss Mabel Pugh o Landdewi. Mynediad fydd £5 a'r elw i'r capel. Croeso cynnes.

Ysgol Y Dderi

Mae plant yr adran iau wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn hyfforddiant criced gan Rhidian Harries, Swyddog Datblygu Criced o fewn y Sir. Maent wedi mwynhau dysgu sgiliau ac yn edrych ymlaen i'r twrnament.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau perfformiad 'Penbobi Hapus' yn Theatr Felinfach. Cafwyd amser bendigedig.

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 y cyfle i fynychu Ysgol Uwchradd Tregaron am ddiwrnod cyfan fel rhan o gynllun pontio yr ysgol.

Cafwyd diwrnod bendigedig a gwersi diddorol ac ysgogol.

Diolch o galon i bawb a fu'n casglu dillad a deunyddiau amrywiol ar gyfer cynllun Bags2School. Rydym yn edrych ymlaen i glywed y swm a gasglwyd – roedd y lori dan ei sang yn gadael yr ysgol!

Llwyddwyd i gynnal y rasys unigol i gyd ar brynghawn Mercher 15fed o Fehefin cyn i'r glaw ein rhwystro. Edrychwn ymlaen yn awr i ddod yn ôl at ein gilydd yn fuan i gynnal y rasys rhwystrau a gwobrwyo'r tŷ buddugol a'r bachgen a'r ferch mwyaf addawol ym myd y campau.

Mae plant blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn derbyn gwersi beicio a diogelwch y ffordd.

Mae aelodau o flwyddyn 5 a 6 wedi bod yn cyweithio gyda Mr Tom Bean o 'Iachus Gyda'n Gilydd' ar y ffwrn fara newydd yn y goedlan. Edrychwn ymlaen i flasus pitsas ar ddiwrnod ffair haf yr ysgol.

Diolch i Mrs Llinos Evans am drefnu helpa drysor ar y cyd rhwng yr ysgol a'r gymuned ar nos Wener 17eg o Fehefin. Er gwaethaf y tywydd diflas roedd nifer o geir wedi troi allan am noson llawn hwyl. Llongyfarchiadau i Lyn, Alex a'r teulu ar gyrraedd y brig. Da iawn chi!

Aeth nifer o blant blwyddyn 5 a 6 ar daith tridiau i Gaedydd gyda Mrs Heini. Roeddent yn aros yng Nghanolfan yr Urdd a chael cyfleoedd gwych i ymweld â Stadiwn Y Mileniwm, Canolfan Y Mileniwm, Y Cynulliad a 'Big Pit'. Cafwyd amser bendigedig a chyfle gwych i ddod i adnabod ein prif ddinas. Diolch i bawb a fu'n gofalu amdanynt.

Wedi noson lywyrchus iawn yn yr ocsiwn yn ddiweddar, pan godwyd dros £3,000 tuag at goffrau'r ysgol gan gymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol, 'rydym wedi prynu piano electroneg newydd i'r adran gerdd. Yn y llun gwelir Miss Lois cydlynnydd cerdd yr ysgol gydag aelodau'r gymdeithas rhieni ac athrawon. Diolch i bawb am eu



Dr Sinon Fountain-Polley, Ymgynghorwr Paediatrydd yn ysbyty Bronglais yn derbyn sic o £100 oddi wrth Jac Evans, is-gadeirydd ac Elliw Dafydd, Ysgrifenyddes C.Ff.I Bro'r Dderi. Codwyd yr arian i elusen Diabetes drwy ganu carolau o amgylch yr ardal adeg y Nadolig.

hymdrechion mewn nosweithiau codi arian tuag at goffrau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Edrychwn ymlaen i noson o feicio ar hyd llwybr Longwood ar yr 8fed o Orffennaf. Byddwn yn gorffen yng nghlwb rygbi Llanbedr gyda barbeciwr a disgo i'r plant. Mae croeso i chi ymuno â ni ar gyfer y beicio neu ddod i fwynhau yn y clwb.

C.Ff.I. Bro'r Dderi

Rydym wedi bod yn brysur iawn fel clwb dros y mis yn paratoi i gystadlaethau'r Sir. Yn gyntaf daeth y chwaraeon yn Aberaeron. Roedd tîm pêl-droed sef Rhodri Pugh Davies, Jac Evans, Sophie Jones, Sioned Douglas, Rhys Douglas ac Aron Dafydd. Hefyd roedd y merched yn llwyddiannus iawn gan ennill y gystadleuaeth pêl-rwyd dan 18 oed. Aelodau'r tîm oedd Sioned Douglas, Elin Gwyther, Kelly Jones, Del Evans, Carys Jones, Melissa Davies a Hannah Timmis.

Hefyd rydym wedi bod yn brysur yn cystadlu yn Rali Pontsian. Cawsom cryn dipyn o lwyddiant wrth i ni ennill y Cwpan am y Clwb Bach Gorau. Canlyniad ardderchog i glwb a chymaint o aelodau o dan 18 oed. Roedd Rhodri Pugh Davies, Cara Capener Jones ac Aron Dafydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth

Beirniadu Defaid Suffolk a chawsant 3ydd fel tîm a derbyniodd Rhodri y wobwr 1af am feirniadu defaid suffolk o dan 26 oed. Hefyd roedd Gethin Morgan, Carys Jones a Del Evans yn cystadlu wrth feirniadu Merlod Adran B a chawsant 3ydd fel tîm a derbyniodd Del y wobwr 1af am feirniadu Merlod Adran B dan 16 oed a hi oedd yn cael y marciau uchaf yn y gystadleuaeth. Derbyniodd y clwb 4ydd fel tîm am feirniadu stoc hefyd. Roedd y clwb yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'Ar y Newyddion' gyda Elliw Dafydd, Guto Gwilym a Gethin Morgan a chawsant y 3ydd wobwr. Derbyniodd y grŵp dawnsio y 3ydd wobwr. Roedd gofyn iddyn nhw berfformio dwy ddawns sef disgo a dawns llwythol. Aelodau tîm y dawnsio oedd Nia Gwyther, Kelly Jones, Sophie Jones, Del Evans, Hannah Timmis, Lowri Jones, Carys Jones a Alis Gwyther. Hefyd cafodd Band yr Ardd y wobwr 1af am berfformio fel band gyda synau o'r ardd. Aelodau'r band oedd Dewi Uridge, Rhys Douglas, Tomos Williams, Steffan Roberts, Sioned Douglas, Beca Creamer, Sophie Jones, Del Evans a Nia Gwyther a byddan nhw yn mynd ymlaen i berfformio yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Pwc Lwc!

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd eu hamser i gyfrannu tuag at baratodau'r rali.



Tîm pêl-droed o dan 15 oed, Llanbedr Pont Steffan wedi iddynt ennill twrnament Felinfach. Rheolwr Mr. Paul Edwards. Diolch yn fawr iawn iddo dros y tymor pêl-droed.



Tîm Pêl-droed dan 9 oed Llangybydder sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl twrnament yn ddiweddar.



Wps!! 'Whoopies!!'

Rydym bob amser yn hoffi cadw at ffasiwn a steil ym mhapur bro'r Clonc. Felly dyma fi yn rhoi i chi gacennau Haf 2011 sef yr 'Whoopies'.

Felly beth yn y byd ydy nhw?

O ble yn y byd y daethon nhw?

Credir mai gwragedd Pensylfania goginiodd y pastai 'whoopie' cyntaf i'w rhoi ym mocs bwyd eu gwŷr. Wedi bore caled byddai'r dynion yn agor eu pecynau bwyd ac wrth weld y pastai yn gweiddi 'Whoopie!' a dyna glywir adref yma pan fydd y pastai yma i de.

Maent yn berffaith hefyd i barti yn yr ardd neu bicnic. Felly dyma gasgliad o rysetiau newydd i chi greu cacennau neu bastai 'Whoopie'.

Gobeithio y cewch chi gymaint o hwyl yn creu, coginio a bwyta'r rhain yn gymaint ac y mwynheiais i.

Whoopie! Am Haf braf!

Pob hwyl,
Gareth.

Whoopie Siocled

(Dyma yw fy ffefryn i a pherffaith gyda choffi neu de.)

Cynhwysion.

- 100 gm o fflwr plaen
- 100 gm o flawd coco
- 1 llond llwy de o 'bicarbonate o Soda'
- 2 ŵy
- 1 llond llwy de o fanilla
- 100 gm o fenyn
- 100 gm o siwgrwr brown meddal

Llenwad.

- 50 gm o fenyn meddal
- 80gm o siwgrwr eisin
- 150 gm o 'cream cheese'
- 1 llond llwy de o fanilla

Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 200°C; 400°F; Nwy 6. Leiniwch dun pobi gyda phapur gwrth-saim.
2. Gwasgarwch y fflwr, y coco a'r soda i ddysgyl. Cymysgwch y menynd a'r siwgrwr gyda'i gilydd nes yn ysgafn. Yn araf ychwanegwch yr wyau a'r fanilla.
3. Plygwch y cynhwysion sych a gwlyb gyda'i gilydd. Arllwyswch y cyfan i'r tun pobi a rhowch yn y ffwrn am 7 munud.
4. Paratowch y llenwad trwy gymysgu'r menynd a'r siwgrwr eisin, yna ychwanegwch y 'cream cheese' a'r fanilla. Peidiwch a'i gymysgu'n ormodol. Wedi i'r gacen ddod o'r ffwrn ac oeri torrwrch yn ei hanner, a rhoi'r llenwad yn haenen rhyngddynt.
5. Torrwrch yn 8 darn a gwaeddwrch 'Whoopie'.

Whoopie fanilla.

Cynhwysion

- 200gm o flawd plaen
- 1 llond llwy de o bicarbonate o soda
- 50 ml o laeth enwyn
- 1 llond llwy de o fanilla
- 8 oz o fenyn
- 100gm o siwgrwr caster
- 1 ŵy

Llenwad

- 150 ml o hufen dwbwl
- 50 gm o jam mafon (raspberry)

Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 200°C; 400°F; Nwy 6. Leiniwch dun pobi â phapur gwrth-saim. Gwasgarwch y blawd a'r soda i ddysgyl a chymysgwch gyda'r laeth enwyn a'r fanilla.
2. Cymysgwch y menynd a'r siwgrwr gyda'i gilydd gyda chymysgydd trydan tan yn ysgafn. Ychwanegwch yr ŵy yn araf yna'r cynhwysion sych a gwlyb gyda'i gilydd gyda llwy fetal.
3. Rhowch y gymysgedd yn dalpiau ar y tro ar y tun. Rhowch yn y ffwrn am 8 munud. Gadewch i oeri.
4. Chwipiwrch yr hufen ac hanerwch y cacennau a rhowch y llenwad hufen a jam rhyngddynt. Addurnwch gyda siwgrwr eisin.

Colofn Dylan Iorwerth

Alltymynydd a hanes dramatig Llanelli

Dynion yn protestio. Milwyr yn tanio. Dyn yn cwmpo i'r ddaear. Erbyn diwedd y dydd, nifer wedi eu hanafu, a dau wedi eu lladd.

Mi allech gredu mai stori o'r Dwyrain Canol neu Ogledd Affrica heddiw ydi hon, ond dim o'r fath beth. Stori o Lanelli, union gan mlynedd yn ôl. Ac, ar ben hynny, mae yna gysylltiad gydag ardal Clonc.

Streic y Rheilffyrdd yn 1911 oedd y cefndir a gweithwyr yn Llanelli, fel mewn llawer lle arall ar draws gwledydd Prydain, ar streic ac yn protestio. Cyn hir fe gafodd y Ddeddf Reiat – y Riot Act – ei darllen, y tro diwetha' yng ngwledydd Prydain, ac fe gafodd y milwyr eu hanfon i dre'r Sosban.

Mae'n debyg mai hwn oedd y tro ola' i filwyr danio ar bobol heb arfau ar dir mawr gwledydd Prydain ac, yn eironig, roedd y streic ei hun wedi ei setlo erbyn y tanio. Yn fwy na hynny, dau ddyn cwbl ddiniwed oedd y rhai a laddwyd.

Roedd un ohonyn nhw yn byw yn sanatoriwm Alltymynydd. Dyn yn ei arddgau o ardal Penge yn Llundain oedd Leonard Worsell ac roedd wedi ei anfon i Lanybydder i gael triniaeth at y diciâu. Roedd ganodd benwythnos rhydd ac wedi mynd am wyliau bach i Lanelli.

Yn ôl yr haneswyr lleol sy'n trefnu cyfres o ddigwyddiadau i gofio'r achlysur, wrthi'n shafio yr oedd ar y pryd ac wedi mynd i gegin gefn y tŷ lle'r oedd yn aros er mwyn cael gweld beth oedd yr holl helynt ar y rheilffordd gerllaw. Fe gafodd ei saethu yn ei galon.

Arwr heb-yn-wybod oedd Leonard druan, ond mae bellach yn cael ei ystyried yn un o ferthyron y frwydr sosialaidd. Roedd y streic a'r digwyddiadau yn Llanelli yn rhan allweddol o'r frwydr gynnar am degwch.

Fel sawl stori arall – y Troad Allan yn Llwynrhydowen neu Gau'r Tir Comin er enghraifft – mae stori Llanelli'n dangos pa mor ddiweddar oedd ein brwydrau ninnau am hawliau sylfaenol a mesur o ddemocratiaeth.

Dyna pam ei bod hi'n bwysig i ni ddweud y straeon yma ac eraill, fel straeon Tryweryn neu Dderwen Gam. O ran hawliau gweithwyr ac iaith a llawer rhagor o bynciau pwysig, mae peryg ein bod ni'n cymryd hawliau'n ganiataol.

A stori arall ...

Ac o sôn am straeon pwysig, mae hi'n werth i chi bicio heibio i Gapel y Groes yn Llanwnnen i gael cip ar yr ardd fach sydd yno.

Un datblygiad yw bwrdd gwybodaeth sy'n adrodd peth o stori'r capel – rhan o brosiect Twristiaeth Ceredigion sydd wedi gosod byrddau mewn nifer o gapeli eraill yn yr ardal, yn gapeli Undodaidd ac enwadau eraill.

Mae'r cyfan yn tynnu sylw at wreiddiau unigryw Anghydffurfiaeth yn yr ardaloedd yma – yn wahanol i bobman arall yng Nghymru.

Ond nid dyna'r unig ddatblygiad yng Nghapel y Groes a'r canolbwynt ydi wal gerrig hardd gyda theiliau o frithwaith, neu mosaic, wedi eu gosod ynddi, yn darlunio rhai o'r straeon sy'n gysylltiedig â'r capel a rhai o'r nodweddion y tu mewn.

Fe fu'r artistiaid Lynne Denman a Shelah Hourahane o gwmni Creuad yn gweithio gyda phlant yr Ysgol Sul ac Ysgol Llanwnnen i gasglu syniadau a'u cael nhwthau i wneud lluniau.

Yn naturiol, mae pethau fel y cwrel a ddaeth yn ôl o Awstralia gyda'r Swagman Joseph Jenkins ymhlith y lluniau ond mae'r broses hefyd wedi rhoi golau newydd (yn llythrennol) ar y capel ei hun.

Trwy lygaid y plant y daeth rhai o nodweddion y capel i'r amlwg. Ambell ddarn o gerfio yn y coed fan hyn, a phatrwm yn y teiliau fan draw.

Yn fwy na dim, mae'r ychydig wydr lliw sydd yn y ffenestri ac uwchben y drws yn creu darluniau prydferth ar y llawr a'r waliau.

Mae yna wers yn hynny hefyd – o edrych yn fanwl, mi welwch bethau newydd.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Llanwnnen

Merch fach

Llongyfarchiadau i Dafydd a Sioned Mills, Bro Grannell ar enedigaeth Gwenno Elen. Llongyfarchiadau hefyd i Liz a Clive Mills, Ffynnonfair am ddod yn famgu a thadcu.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys yr ardal i Mr a Mrs Andrew Griffiths a'r teulu, 2 Pantyrnnon yn eu profedigaeth ar farwolaeth nai 3 mis oed yn y Rhondda.

Priodas dda

Priodas dda i Joe Thomas a briododd yn Hawaii yn ddiweddar a gobeithio i'r teulu a aeth draw fwynhau.

Ysgol Gynradd Llanwnnen

Da iawn i'r plant a fuodd yn cynrychioli'r ysgol yn y Dawnsio Gwerin yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe a diolch i bawb am ddod i gefnogi. Cafwyd diwrnod braf.

Cafodd un ar ddeg o blant o flynyddoedd 5 a 6 amser gwyth yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Diolch yn fawr iawn i

Mrs Holmes a Miss Caryl am fynd gyda'r plant.

Diolch i Erika ac Alan yng Nghanolfan Arddio Llanwnnen am eu rhoddion caredig o blanhigion a llysiau i'n 'polytunnel'.

Sefydliad y Merched

Cafwyd noson hwylus iawn yng nghyfarfod Sefydliad y Merched ar nos Lun, 6ed o Fehefin. Mr Paul Jones oedd ein gŵr gwadd. Mae Paul yn Swyddog hyfforddi ffitrwydd gyda Chyngor Ceredigion yng Nghanolfan Hamdden Llambod. Cafodd bob un o'r aelodau ar eu traed yn gwneud ymarferion ysgafn, ymarferion y dylem wneud adref bob dydd er mwyn cadw'r corff yn heini. Cafwyd tipyn o hwyl ac aeth pawb adre yn teimlo'n eitha ystwyth!!

Diolchodd Mrs Gwen Jones ac eiliwyd gan Mrs Alice Davies i Paul am noson ddymunol iawn. Enillwyd cystadleuaeth y mis gan Mrs Avril Jones. Edrychwn ymlaen am ein cyfarfod nesaf sef Te Mefus yng nghartref Mrs Joyce Flaxman. Elw'r cyfarfod yn mynd tuag at Ymchwil Cancr y Fron.



Yn ddiweddar cynhaliwyd gwahanol brosiectau yng Nghapel y Groes ger Llanwnnen. Yn eu plith roedd darparu offer sain y tu fewn i'r capel ac fel rhan o Gynllun Twristiaeth Ffydd y Cyngor Sir rhoddwyd Bwrdd Dehongli y tu allan. Yn ychwanegol y tu allan fe osodwyd cyfres o wyth mosaig yn adrodd hanesion gwahanol. Paratowyd gardd hefyd. Yn y llun mae tri o aelodau hynaf y capel sef Simon Jones o Lanybydder sy'n cael ei gynorthwyo gan Joyce Williams, Blaencwrt a Mari Evans o Lanwnnen i osod y planhigyn olaf yn ei le. Yn eu gwyllo mae plant yr Ysgol Sul ynghyd â'r gynulleidfa oedd yn bresennol mewn gwasanaeth arbennig ar y Sul olaf ym mis Mai i ddiolch am y rhoddion arbennig a ddaeth i law drwy ffynonellau gwahanol.



Carnifal Llanwnnen

Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen, yn ennill y brif wobwr yng Ngharnifal Llanwnnen ar ddydd Sadwrn y 4ydd o Fehefin.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Mrs Amanda Jones, Blaenhedd yn well ar ôl derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Pencarreg

Eisteddfota

Hyfryd oedd gweld Sian Elin, Muriau Gwyn yn ymddangos ar y teledu fel aelod o'r parti llefaru buddugol, Adran Llambod yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn ti, dal ati ynghyd a phob plentyn arall fu'n cymeryd rhan.

Beirniadu

Bu Heiddwen Tomos, Dôl-Mebyd yn beirniadu yn Eisteddfod Abergorlech ac hefyd y llên a'r adrodd ym Maenclochog. Roedd wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn gan ganmol y safon uchel yn y ddwy Eisteddfod.

Diolch

Dymuna Ruth Jones, Heol-y-Maes ddiolch i bawb a gyfranodd tuag at apêl Cymorth Cristnogol pan fu o gwmpas y pentref yn casglu tuag at yr achos yn ddiweddar. Y swm a gasglwyd oedd £61.93.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed y newydd am farwolaeth Dewi Jones gynt o 'Claret House', brawd annwyl i Annie Thomas ac ewythr hoffus i Malcolm. Rydym yn meddwl amdanoch ar yr adeg yma yn eich hiraeth am Dewi.



Llongyfarchiadau

Cafodd Jasmine Davies, Glenview, Pencarreg un wobwr gyntaf am ganu emyn dan 12 oed, un cyntaf a dwy ail wobwr am ganu unawd a dwy wobwr gyntaf ac un ail am lefaru 10 – 12 oed mewn eisteddfodau pasg.



O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Mae'r toriadau i gyllid y sector gyhoeddus yn dechrau cael effaith yma yng Ngheredigion, ac ychydig wythnosau yn ôl fe fynychais gyfarfod ym Mhenparcau wedi'i drefnu gan Geredigion yn Erbyn y Toriadau er mwyn gwrthwynebu cynlluniau'r Cyngor Sir i gau cartref preswyl Bodlondeb. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Ceredigion yn edrych ar y posibilïad o drosglwyddo'r gwasanaeth presennol o gartref Bodlondeb i Hafan-y-Waun, Waunfawr.

Mae nifer o drigolion lleol wedi cysylltu gyda mi i fynegi eu gwrthwynebiad i'r cynlluniau – fyddai'n golygu bod y gwasanaeth yn cael ei breifateiddio – ac mae gen i bryderon ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig hefyd, yn enwedig yn sgil yr helynt diweddar ynghylch cartrefi preswyl Southern Cross. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Sir yn paratoi adroddiad ar yr opsiynau ac rwy'n credu'n gryf y dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus arall pan fydd wedi'i gyhoeddi er mwyn trafod y mater yn llawn.

Yn y Senedd ym Mae Caerdydd, fe fanteisiais ar y cyfle i holi'r Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, ar gynlluniau ei lywodraeth i gyflwyno gwasanaeth bob awr ar reilffordd y Cambria. O dan y Cyn-weinidog Trafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC, fe fuddsoddwyd yn is-adeiledd y llinell ac fe glustnodwyd cyllid ar gyfer cyflwyno gwasanaeth trên mwy rheolaidd. Fodd bynnag, fe fethodd y Prif Weinidog roi sicrwydd y byddai Llywodraeth newydd Cymru'n parhau â'r cynlluniau.

Hefyd yn ystod mis Mehefin, fe ymwelais ag Aberteifi er mwyn cwrdd â chynrychiolwyr o'r elusen Canolfan Blant Jig-so a thrafod eu cynlluniau i ad-leoli'r ganolfan i safle Pwllhai yn y dref. Rwy'n gyfarwydd iawn gyda'r gwaith da mae Jig-so'n ei wneud yn yr ardal ac rwy'n dymuno'n dda iddynt wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau ymhellach. Roedd gen i ddiddordeb hefyd i glywed eu bod yn bwriadu ehangu a chynnig cyfleoedd i rieni a phlant gwrrd mewn pentrefi cyfagos, ac rwy'n edrych ymlaen at ymweld ag un o'r cyfarfodydd yn Llechryd yn y dyfodol agos.

Llanllwni

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Ifan Davies, Abercwm ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Eisteddfod Llandudoch

Yn Eisteddfod Llandudoch ger Aberteifi, roedd Bethan Eynon Stobbs wedi ennill dau gwan arian am adrodd unigol a chanu unigol a hefyd ennill trydydd am yr alaw werin. Roedd yr Eisteddfod yn agored i bawb yn yr ardal a'r cyffiniau. Bu Bethan a'i brawd William yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Eglwys Llanllwni.



Ond mae y ddau nawr yn mynychu Ysgol Gynradd Llandudoch. Rhaid dweud fod William hefyd fel Bethan yn llwyddiannus mewn gwahanol chwaraeon. Pob lwc i'r ddau. Mae Bethan a William yn wŷr a wyres i Will a Daphne Davies, Dolifor, Llanllwni. Mis Medi fydd Bethan yn mynd i Ysgol y Preseli. Dymunwn yn dda iddi.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i David ac Anne Thorne, Glennydd ar gael wŷr bach newydd Brychan Padrig. Mab i Betsan a'i gŵr a brawd i Eirianwen.

Ysgol Llanllwni

Braf oedd gweld dau ddeg tri o aelodau'r Urdd yn perfformio'r Gân Actol ar lwyfan y pafiliwn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Gwelwyd cip ohonynt ar y teledu. Er nad yn y tri safle cyntaf cawsom feirniadaeth arbennig o dda. Roedd yn brofiad bythgofiadwy iddynt a diolch i bawb deithiodd i Abertawe i'w cefnogi.

Athletau sydd gennym yn ein sesiynau Campau'r Ddraig y tymor yma i blant yr Adran Iau.

Mae blwyddyn 6 wedi derbyn gwersi Technoleg gan Mr Aled Dafis, athro Technoleg yn Ysgol Gyfun Llambled. Derbyniodd ddisgyblion yr adran iau wersi Gyddoniaeth gan Miss Mattie Evans.

Cafwyd 'Diwrnod Hwyl' llwyddiannus iawn ar y cyd â'r Ysgol Feithrin ar Fehefin 11eg ar gaeau Glanafon. Roedd yna nifer o stondinau a gweithgareddau i ddiddori pawb – gweithgareddau

gyda Sali Mali, sesiwn drymiau, sgiliau syrcau, golff, criced, peintio wyneb, gweithgareddau crefft, castell bownio, barbiw a mwy. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a ymunodd yn yr hwyl.

Aeth trip yr Urdd i sinema Apollo yng Nghaerfyrddin i weld ffilm ac yna i McDonalds i gael swper. Mwynheudd pawb mas draw.

Bu ffotograffydd yn yr ysgol yn tynnu lluniau'r plant.

Treuliodd dosbarth y Babanod ddiwrnod ym Mhentref Bach. Buom o amgylch cartrefi cymeriadau'r pentref a daeth Sali Mali i'n gweld amser cinio.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar gae chwarae y pentref ar ddydd Iau, Mehefin 23ain. Cafwyd hwyl yn cystadlu mewn amrywiaeth o rasys. Tîm Hendre enillodd y darian am y marciau uchaf dan gapteniaeth Rhian Thomas, Jasmine a Joshua. Enillwyr y troffis oedd:

Bachgen â'r marciau mwyaf yn y babanod: Mathew

Merch â'r marciau mwyaf yn y babanod: Megan a Grace [cydradd]

Bachgen â'r marciau mwyaf yn yr Adran Iau: Steffan ac Ifan [cydradd]

Merch â'r marciau mwyaf yn yr Adran Iau: Hannah

Rhedwr gorau y ras hir Adran Iau: Cameron

Rhedwr gorau y ras hir Babanod: Owain

Enillwyr y medalau i bob blwyddyn oedd:

Bl.6: Rhian T, a Sophie; Bl.5: Daniel; Bl.4: Steffan; Bl.3: Hanna; Bl.2: Megan; Bl.1: Gwion; Bl.0: Mathew. Derbyn: Grace; Ysgol Feithrin: Elan.

Diolch i blant blwyddyn 6 am roddi'r troffis. Hefyd, i bawb a ddaeth i gefnogi'r plant.

Treuliodd Catrin Evans o Ysgol Dyffryn Teifi wythnos o brofiad gwaith gennym. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r profiad. Bu tîm o'r Adran Iau yn cystadlu mewn twrnament pêl-droed yn Llanfihangel-Ar-Arth.

Erbyn i'r rhifyn yma ymddangos byddwn wedi bod ym mabolgampau Ysgolion Cylch Pencader a chystadlu mewn gêm rownderi a phêl droed gyda Ysgolion Cylch Llambled. Byddwn wedi gweld Sioe Eco a Taclus Ted yn Ysgol Cae'r Felin. Rydym yn edrych ymlaen at ein trip ysgol i Aberystwyth a Borth.

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â naw o ddisgyblion blwyddyn 6. bydd Sioned a Mair yn dechrau yn Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi ym Medi, bydd Rhian T, Rhian G, Sophie, Jasmine, Konrad a Joshua yn

dechrau un Ysgol Gyfun Llambled a Cameron yn mynd i Gaerfyrddin. Maent wedi cael cyfle i ymweld â'r ysgolion yn barod. Rydym yn dymuno pob lwc i chi gyd a chofiwch ddod nôl i'n gweld gyda'ch hanesion pan gewch gyfle. Dymuna staff a phlant yr ysgol wyliau haf hapus i ddarllenwyr Clonc. Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mehefin:-

£10 – 187 – Louise Jones, Golygfa, Llanllwni

£5 – 19 – Arwel a Marion Howells, Pantglas, NewInn

£2,50 – 105 – Gloria Jones, Y Beudy, New Inn

£2.50 – 207 – Rosalind Thomas, Ffynnon Newydd, Llanllwni

£2.50 – 195 – Betsan Jones, Llanllwni

Adnewyddu Eglwys St Luc Llanllwni

Yn ystod ein cyfarfod ar y 21ain o Fehefin penderfynodd Pwyllgor Cyngor Plwyf Eglwysig St Luc Llanllwni gychwyn ar y gwaith o adnewyddu'r Eglwys. Penodwyd Steve Knott o'r Ferrier Partnership i ddatblygu cynlluniau ar ein rhan a chychwyn ar y broses i sicrhau bod yr addoldy hyfryd yma ar gael am ganrifoedd i ddod. Diolch i'r staff, rhieni a ffrindiau a gyfrannodd tuag at y stondinau, a chynorthwyo i wneud y diwrnod yn lwyddiant mawr.

Diwrnod Hwyl Llanllwni

Cafwyd diwrnod o hwyl a sbri ar y 11eg o Fehefin 2011 yng Nghae Glanafon. Daeth tyrfa o bobl i fwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau. Bu'r plantos wrth eu bodd yn gwrando ar Sali Mali yn eu swyno gyda storiâu cyffrous. Cafwyd bwrlwm yn y babell gyda plantos bach a mawr yn rhoi tro ar y Drymiau Affricanaidd gydag Emmanuel. Bu nifer hefyd yn creu creaduriaid y goedwig o dan ofal Maggie Fearn a'i chriw, tra bu eraill yn gwneud pypedau Sali Mali gyda Lynwen o Twf a Nia o Fenter Gorllewin Sir Gâr. Roedd wynebâu'r plant yn bictwr yn enwedig y rhai a oedd wedi cael eu wynebâu wedi peintio – diolch i ti Meriel am dy sgiliau peinito arbennig!



Trefnwyd y diwrnod ar y cyd rhwng 'Pwyllgor Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni' a 'Phwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllwni' efo'r bwriad i gynnig diwrnod o Hwyl a Sbri i'r teulu ynghyd â chodi arian ar gyfer Ysgol Feithrin Llanllwni ac Ysgol Gynradd Llanllwni.

Yr ydym yn ddiolchgar dros ben i'r holl bobl a gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod.

Gwnaethom elw sylweddol o £1,700. Felly mae'n diolch yn fawr i'n Llywyddion hael Tom a Ray Harries Castleview (Maesnonni gynt), Dewi a Betsy a Gary ac Eirlys am ddefnydd y cae, noddwr ein raffl Eifion Jones, Garej Nant yr Hendre a'r cwmnïau a wnaeth gyfrannu gwobaru ac i Dave a Hilary am goginio ar y BBQ.



Colofn y C.Ff.I.

Oni bai am y tywydd garw ar fore'r Rali ar Fferm Pantydefaid roedd yn ddiwrnod llwyddiannus i Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion, gyda chroeso twymgalon gan glwb Pontsian. Braf oedd gweld y Frenhines, Ffarmwr Ifanc a'r Morwynion newydd ar lwyfan y rali. Ar ôl cystadlu brwd rhwng y clybiau, dyma ganlyniadau'r diwrnod:-

Crefft dan 16:- Glyn Rhys James, Llanddeiniol; **Coginio dan 21:-** Fflur ac Osian, Penparc; **Blodau dan 26:-** Katie-Ann Briddon, Caerwedros; **Marciau Uchaf yng nghystadleuthau'r aelodau:-** Caerwedros; **Sioe Deithiol Atal Tân:-** Llanwenog; **Ar y Newyddion:-** Llanwenog; **Arwerthiant CFFI:-** Gethin a Morgan, Mydroilyn; **Arddangosfa'r Ffederasiwn:-** Penparc; **Coedwigaeth:-** Llion a Geraint, Troedraur; **Dawnsio:-** Llanwenog; **Beirniadau Defaid Suffolk:-** Tîm Talybont; **Dan 16 oed** - Ifan Morgan, Penparc; **Dan 21 oed** - Sioned Evans, Llanwenog; **Dan 26 oed** - cydradd Rhodri Pugh Davies, Bro'r Dderi a Jonathan Jones, Felinfach; **Barnu Gwartheg Henffordd:-** Tîm Talybont; **Dan 16 oed** - Richard John Jenkins, Talybont; **Dan 21 oed** - Ceris James, Bryngwyn; **Dan 26 oed** - Aled Llŷr Thomas, Talybont; **Meimio Golygfa:-** Llanwenog; **Band yr Ardd wedi'i Ailgylchu:-** Bro'r Dderi; **Her Addasu:-** Caerwedros; **Mae gan CFFI Ffactor:-** Llanwenog; **Cneifio Defaid:-** Tîm Talybont; **Dan 21 oed** - Rhys Lewis, Trisant; **Dan 26 oed** - Rhydian Evans, Talybont; **Barnu Merlod Adran B:-** Tîm Talybont; **Dan 16 oed** - Delyth Evans, Bro'r Dderi; **Dan 21 oed** - cydradd Danielle Pryce, Talybont a Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon; **Dan 26 oed** - Catrin Reed, Pennant; **Arddangosfa'r Prif Gylch:-** Penparc; **Tablo:-** Llangwryfon. **Clwb Llanwenog** ddaeth i'r brig gyda 159 o farciau gyda **chlwb Penparc** yn ail gyda 157 o farciau. Yn ennill Cwpan Gwynne Davies am y clwb mwyaf llwyddiannus yn 2010-11 oedd Llanwenog, ac yn ail oedd Pontsian ac yn derbyn Cwpan Lloyd Jack. Y clwb bychan mwyaf llwyddiannus yn y Sir yn 2010-11 ac yn derbyn Cwpan David Davies oedd Bro'r Dderi. Bydd yr enillwyr yng nghystadlaethau'r Rali yn mynd ymlaen i gynrhycholi'r Sir yn y Sioe Frenhinol ar ddiwedd y mis.

Cynhaliwyd cystadleuaeth rygbi 7-bob ochr ar gaeau Rygbi Aberaeron yn ystod y mis. Clwb Troedraur ddaeth i'r brig ar ôl ffeinal gyffrous gyda chlwb Caerwedros. Bydd aelodau'r Sir yn cystadlu yng nghystadleuaeth 7-bob ochr yn y Sioe Frenhinol.

Gohiriwyd noson athletau a thynnu'r gelyn o ganlyniad i'r tywydd gwael, ond yn cynrychioli Ceredigion yn tynnu'r gelyn bydd bois Llanwenog, a'r Ladis Pinc i'r merched.

Pob lwc i'r aelodau a fydd yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol mewn gwahanol weithgareddau.

Clwb 200

1af - Clwb Caerwedros. 2il - Gareth a Nanna Ryder, Tyngrug Ganol, Cwmsychpant. 3ydd - Mark a Wendy Jenkins, Ysgubor Wen, Mydroilyn.

Papurau Bro Ceredigion

Eisteddfod Ddwl

9fed o Fedi 2011

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

Neuadd Felin-fach

Mynediad £1

Arweinydd y noson

Geraint Lloyd

Beirniad Dewi 'Pws'

O'r Llwyfan

Stori gelwydd

Sgetsh gyda dim mwy na chwech mewn nifer yn y grŵp, i bara dim mwy na phum munud. Testun - unrhyw arddull yn ymwneud â phapur bro

Datganiad ar yr organ geg. i bara dim mwy na thair munud. Hunan ddewisiad

Llefaru - darllen darn heb ei atalnodi

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd. Cyflwynir tiws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Gwaith Cartref

Slogan i hysbysebu eich papur bro

Ar gyfer dysgwyr Paratoi erthygl fer - dim mwy na 300 o eiriau ar gyfer y papur bro yr ydych yn ei gynrychioli

Ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed Portread aelod o'r teulu - dim mwy na 300 o eiriau ar gyfer y papur bro yr ydych yn ei gynrychioli

Llunio brawddeg, gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau C-E-R-E-D-I-G-I-O-N

Gorffen limerig - "Aeth Wil un noson i'r gwely"

Creu carden cyfarch i ddathlu pen-blwydd Dewi "Pws" Morris

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugen) erbyn y 26ain o Awst at Dewi 'Pws' Morris: Frondirion, Tresaith, SA43 2JL.

Anfonwch eich manylion cyswilt, gyda'ch ffugenw ac enw eich papur bro i Cered erbyn yr un dyddiad.

Cered, Campws Addysg Felin-fach, Dyffryn Aeron, SA48 8AF (01545 572350) cered@ceredigion.gov.uk

Cefnogwch eich papur bro!

y Lolfa BWRD YR IAITH CYMRAG-WELSH LANGUAGE BOARD

CERED Mudiad Ffermwyr Ifanc Ceredigion

Bag Papurau Bro

am ddim i'r 100 aelod newydd cyntaf sy'n ymuno â Chlwb Clonc a thalu drwy archeb banc.



CEFNOGI CLONC 2011

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes er mwyn hawlio'ch bag siopa newydd am ddim.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of

Cangen / Branch

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambled 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name

Cyfeiriad Llawn / Address

Rhif y cyfrif / Account no

Dyddiad / Date ... / ... / 2011

Arwyddwyd / Signed

**** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi****

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.

**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw:

Cyfeiriad:

Silian

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nia Wyn ac Osian Williams, Bwlch-y-ffin ar enedigaeth mab bach, Trystan Wyn yn ystod y mis. Hefyd, dymuniadau da i mamgu a tadcu sef Beryl ac Alun Williams, Glantawela ar enedigaeth eu wŷr. Dymuniadau gorau i chi fel teulu i gyd.

Deunaw oed

Yn ystod y mis bydd Elliw Dafydd, Gwarffynnon yn dathlu

ei phenblwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Pentrebach

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Liz a Clive Mills, Ffynnon-fair ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith eto, merch fach, Gwenno i Dafydd a Sioned yn Llanwnnen.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Wel gobeithio eich bod i gyd yn iawn, ac wedi cael cyfle i fwynhau yn yr haul braf. Fuoch chi am dro i'r traeth? Bues i a fy ffrind Caradog y Crwban ar draeth Cei Bach yn adeiladu cestyll tywod ac yna nofio yn y môr mawr glas. Ond cofiwch blant pan fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn a gwranddo ar oedolyn.

Wel mae'n amlwg bod rhai ohonoch chi wedi cael amser i liwio gan fod nifer fawr o luniau lliwgar wedi cyrraedd fy nhŷ yn ystod y mis. Diolch i chi gyd. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Cara Elli Jones a Lauren Mcleary o Lamed, Chloe Marie Jones a Jamie Jones o Llanybydder ac Undeg Medi Jones a Jenna Simmonds o Gwmann. Ond y peli a'r bwced a rhaw mwyaf lliwgar y mis hwn yw rhai Elan Jenkins, Bryngolau, Alltyblaca. Llongyfarchiadau mawr i ti Elan!

Mae'r tywydd wedi bod yn braf diwedd mis hyn eto, a gobeithio bydd hi'n braf dros wyliau'r haf ac yn ystod yr holl ddigwyddiadau sydd o'n blaenau. Rhai o'r digwyddiadau hynny fydd y sioeau lleol a'r sioe fawr yn Llanelwedd wrth gwrs. Fyddwch chi yn mynd am dro i'r Sioe Fawr eleni? Wel beth am fynd ati i liwio'r llun hwn o rai o'r anifeiliad y byddwn yn eu gweld yn y sioe. Postiwch y llun ataf erbyn dydd Sadwrn, Awst 20fed.

Ta ta tan toc.

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**

**Elan
Jenkins**



Enw:

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

**Cysylltwch â ni am fanylion
pellach**



Ffôn/Phone:

01545 574187

E-bost/E-mail:

cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:

<http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



Rhowch gynnig ar rywbeth gwahanol ar ddydd Iau o'r mis Awst hwn ym **Mhentref Ymddeol Cwm Aur yn Llanybydder**



Mae'r digwyddiadau yn agored i bawb ac yn rhad ac am ddim i'w mynychu. Fodd bynnag, am fod y lleoedd yn gyfyngedig, cymeradwyir cofrestru trwy alw 01570 481560 neu e-bostio timetoenjoy@gwalia.com

4 Awst 2011 am 6.30 pm

Blas o'r Dwyrain
Tai Chi ym Mentref Ymddeol Cwm Aur.
Cyflwyniad rhad ac am ddim i Tai Chi fel modd o ymlacio a chadw'n iach. (Awgrymir gwisgo dillad llac.)

11 Awst 2011 am 6.30 pm

Blas o'r Ecsotig
Dawnsio Salsa ym Mentref Ymddeol Cwm Aur.
Gwers rad ac am ddim i ddechreuwyr o bob oedran.
(Awgrymir gwisgo dillad llac.)

18 Awst 2011 am 6.30 pm

Blas o Gartref
Blasu bwyd Cymreig ym Mentref Ymddeol Cwm Aur.
Ymunwch â ni i ddatlu bwyd traddodiadol Cymreig a'i flasau am ddim diolch i'n staff arlwyo talentog.

25 Awst 2011 am 6.30 pm

Blas o'r Winllan
Blasu gwin ym Mentref Ymddeol Cwm Aur.
Cyflwyniad rhad ac am ddim i flasau a gwerthfawrogi gwin.
(I BOBL DROS 18 OED YN UNIG)

Pentref ymddeol Cwm Aur Llanybydder.

Cartrefi newydd i bobl gydag amser i fwynhau bywyd.

- Cartrefi ymddeol eang 1 & 2 ystafell wely wedi'u hadeiladu yn ôl y safonau cynladwyedd uchaf.
- Wedi'u lleoli yng nghefn gwlad delfrydol, tawel Sir Gaerfyrddin, gyda golygfeydd gwych o Ddyffryn Teifi.
- Wedi'u dylunio i alluogi dull o fyw gweithgar, annibynnol heb y gofidion sy'n gysylltiedig â pherchentyaeth.
- Biliau gwres a dŵr rhatach oherwydd nodweddion amgylcheddol fel paneli solar, lefelau uchel o insiwleiddio a boeler biomas.
- Lolfa, mannau gweithgareddau, llyfrgell a bwyty, lle medrwyd gwrdd â chyfeillion a byw bywyd i'r eithaf.
- Gwasanaethau gofal proffesiynol ar gael ar eich stepen drws os oes eu hangen arnoch nawr neu rywbryd yn y dyfodol.



Am fwy o wybodaeth am Gwm Aur neu i gael gweld ein fflat arddangos, cysylltwch â ni ar 01792 488288 neu e-bostiwch timetoenjoy@gwalia.com

O Eisteddfod Cenedlaethol yr Urdd.....



Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr unawd Bl 5 a 6 - 1af; Cyfrwng cymysg Ysgol Ffynnonbedr - 2il; Charlotte Saunders disgo unigol - 2il; Ysgol Cwrtnewydd Dawns Greadigol - 2il; Cerdd Dant Aelwyd Llambled - 3ydd; Ysgol Gyfun Llambled - Llefaru i Ddysgwyr Bl. 7-9 - 3ydd; Cyfansoddi cerddoriaeth Ysgol Cwrtnewydd- 2il; Aelwyd Llambled Llefaru dan 15 - 1af.

....i Rali Ffermwyr Ifanc Ceredigion



Delyth Evans, Bro'r Dderi; Jonathan Jones, Felinfach a Rhodri Pugh Davies, Bro'r Dderi; Brenhines CFfl Ceredigion a'i morwynion a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn; Tair o aelodau Clwb Llanwenog - Sioned, Carys ac Elin; Enfys, Gethin a Gwawr Hatcher, Llanwenog; Sioned Fflur Evans Llanwenog - pawb a fu'n llwyddiannus iawn yn Rali Ceredigion. Mwy o fanylion o dan adroddiadau'r clybiau.